


# Llais

70c



# Ardudwy

RHIF 497 - EBRILL 2020

## DYFARNU'R FEDAL



Yn rhifyn mis Mawrth, fe gawsoch hanes Osian, mab Gerwyn a Siân Ephraim, Tanforhesgan, Talsarnau, sy'n fyfyrwr yng Ngholeg Meirion Dwyfor. Nodwyd iddo lwyddo i ennill medal yng nghystadleuaeth Sgiliau Cymru, adran Adeiladwaith a Pheirianneg. Bryd hynny nid oeddem yn gwybod am y dyfarniad terfynol. Mae'n bleser cyhoeddi mai ennill medal aur ddaru Osian ac rydan ni yn ei longyfarch yn gynnes iawn. Pob dymuniad da i'r dyfodol!

## CYNLLUN CYFAILL

Yn Harlech, Llanfair a Llandanwg sefydlwyd 'Cynllun Cyfaill' i bobl sy'n hunan-ynysu ar gyfer siopa bwyd neu nwyddau hanfodol, casglu presgripsiwn newydd a gorchwylion pwysig eraill. Os ydych yn hunan-ynysu, cysylltwch ag un o'r canlynol ar *Facebook* - Ols Richards, Graham Perch, Marie-Claire neu Melissa Hughes.

Hefyd, mae'r busnesau lleol canlynol yn cynnig cymorth:

**Llanbedr, Yr Hen Fecws** - cynnig gwasanaeth danfon lleol.

**Hafan Arto** - cynnig cymorth drwy gasglu unrhyw siopa hanfodol fel bara, llefrith, wyau ac ati o fewn 6 milltir. Codi unrhyw bresgripsiynau o fferyllfa Harlech neu'r Bermo wrth siopa ar eich cyfer os bydd angen. Gwneud bwyd i fynd allan a'u danfon yn y pentref amser cinio a gyda'r nos. Ffoniwch cyn 11.30 y bore ar gyfer archebion amser cinio a chyn 5.30 y pwnn ar gyfer archebion gyda'r nos. Bwydlen ar gael ar *Facebook*.

**Caffi'r Wenallt**

Bwydlen bwyd i fynd allan i bobl ynysig a'r henoed. Bwydlen osod £6 ar gyfer prif gwrs a phwddin. Hefyd mae bwydlen arbennig ddyddiol am £5.50 neu unrhyw beth o'n bwydlen arferol, ar gael fel bwyd i fynd allan. 01341 241982 - Mercher a Gwener yn unig rhwng 11.00 ac 1.00.

**Tal-y-bont, Dyffryn Ardudwy, Llanbedr, Harlech**

Siop Stad Lan Môr Dyffryn (*Facebook Dyffryn Seaside Estate*)

Siopa ar gyfer y rhai sy'n agored i niwed yn ein cymuned nad ydynt yn gallu cyrraedd y siopau, ac nad oes ganddynt berthnasau na chyfeillion i siopa ar eu cyfer. Ni chodir tâl am anfon. Archebion i mewn erbyn 3.00 y pwnn. Arian parod yn unig.


## CYFLWYNO LLYFRAU




### Merched y Wawr Llanfair, Harlech a'r Bermo

Yn y cylchlythyr Nadolig, roedd Meirwen Lloyd, y Llywydd Cenedlaethol, yn ein hannog i roi unrhyw arian o raffl neu gasgliad Nadolig tuag at blant yn ein rhanbarth ein hunain. Penderfynodd canghennau y Bermo a Harlech/Llanfair brynu llyfr Oswy Gower, sef 'Llyfr adar mawr y plant' i bump ysgol yn ein dalgylch lle mae gan yr aelodau gysylltiadau. Yn y llun uchod, gwelir Bronwen Williams, ar ran cangen Harlech/Llanfair yn cyflwyno'r llyfr i Glesni, merch un o'r aelodau, a Mrs Williams, Pennaeth Ysgol Tanycastell.

Yn y llun isod, mae Llewela Edwards yn cyflwyno copi o'r llyfr, ar ran cangen y Bermo, i ddisgyblion hŷn Ysgol y Traeth.



## RHIFYN ELECTRONAIDD



Gan fod Gwasg y Lolfa wedi cau, nid oedd yn bosib cynhyrchu copi papur arferol y tro hwn. Trwy gydweithrediad nifer o garedigion, byddwn yn anfon y papur ar ffurf electronaidd at gynifer o bobl ag sy'n bosib. Er hynny, gwyddom na fydd yn cyrraedd pawb fel hyn. Pe bai pawb sydd ag argraffydd yn gwneud copi papur i gyfaill sydd heb gyfrifiadur neu ffôn symudol neu iPad, buasem yn plesio llawer. Rhagwelwn mai dyna fydd y drefn ym mis Mai hefyd. Felly os cawsoch chi drafferth i dderbyn y copi hwn, cysylltwch â ni a gyrrwch eich cyfeiriad e-bost atom [neu gyfeiriad eich cyfaill] ac mi wnawn ninnau ein gorau. Gallwch gysylltu â [llais.ardudwy@outlook.com](mailto:llais.ardudwy@outlook.com) a darllen y papur hwn ar ISSU. Mae'r cyfeiriad llawn ar t.5.

Mae amryw o'n darllenwyr wedi holi am fanylion banc Llais Ardudwy er mwyn iddyn nhw fedru rhoi cyfraniad neu adnewyddu eu tansgrifiad. Os ydi o'n gyfraniad - nodwch CYF ar y taliad ac os ydi o'n danysgrifiad [£7.70 y flwyddyn] nodwch TAN. Diolch.

**Banc:** HSBC Porthmadog

**Côd Sortio:** 40-37-13

**Rhif y cyfrif:** 01068695

## GOLYGYDDION

### Phil Mostert

Bryn Awel, Ffordd Uchaf,  
Harlech 01766 780635  
pmostert56@gmail.com

### Anwen Roberts

Craig y Nos, Llandecwyn  
01766 772960  
anwen15cynos@gmail.com

### Newyddion/erthyglau i:

#### Haf Meredydd

hmeredydd21@gmail.com  
07760 283024 / 01766 780541

## SWYDDOGION

### Cadeirydd:

Hefina Griffith 01766 780759

#### Trefnydd Hysbysebion

Ann Lewis 01341 241297  
Min y Môr, Llandanwg  
ann.cath.lewis@gmail.com

#### Trysorydd

Iolyn Jones 01341 241391  
Tyddyn Llidiart, Llanbedr  
iolynjones@outlook.com

#### Ysgrifennydd

Iwan Morus Lewis 01341 241297  
Min y Môr, Llandanwg  
iwan.mor.lewis@gmail.com

#### CASGLWYR NEWYDDION LLEOL

##### Y Bermo

Grace Williams 01341 280788  
David Jones 01341 280436

##### Dyffryn Ardudwy

Gwennie Roberts 01341 247408  
Susan Groom 01341 247487

##### Llanbedr

Gweneira Jones 01341 241229  
Susanne Davies 01341 241523

##### Llanfair a Llandanwg

Hefina Griffith 01766 780759  
Bet Roberts 01766 780344

##### Harlech

Edwina Evans 01766 780789  
Ceri Griffith 07748 692170  
Carol O'Neill 01766 780189

##### Talsarnau

Gwenda Griffiths 01766 771238  
Anwen Roberts 01766 772960

##### Cysodwr y mis: Phil Mostert

Gosodir y rhifyn nesaf ar Mai 1 am 5.00. Naill ai bydd ar werth ar Mai 6 neu bydd yn cael ei anfon yn electronaidd ar Mai 3. Bydd modd ei darllen ar ISSU drwy gysylltu â [llais.ardudwy@outlook.com](mailto:llais.ardudwy@outlook.com) Newyddion i law Haf Meredydd cyn gynted â phosib ac erbyn Ebrill 27 fan bellaf os gwelwch yn dda. Cedwir yr hawl i docio erthyglau. Nid yw golygyddion Llais Ardudwy o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir yn y papur hwn. 'Rhydd i bawb ei farn ac i bob barn ei llafar.'



Dilynwch ni  
ar Facebook

@llaisardudwy

## HOLI HWN A'R LLALL



**Enw:** Ann Griffith

**Gwaith:** Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

**Cefndir:** Wedi fy magu yn y Bermo. Merch i Dorothy a Llewelyn Griffith, Brookside, Hendre Mynach. Es i Ysgol Ardudwy, Harlech. Wedi byw ar Ynys Môn ers 1984 ond yn edrych ymlaen at ddychwelyd i'r hen gartre' yn 2020.

**Sut ydych chi'n cadw'n iach?**

Cerdded a nofio yn y môr.

**Beth ydych chi'n ei ddarllen?**

"On Fire" Naiomi Klein, "Who Rules the World?" Noam Chomsky, a "Drug Wars" Neil Woods a Rafaeli.

**Hoff raglen ar y radio neu'r teledu?**

"Designated Survivor" ar Netflix.

**Ydych chi'n bwyta'n dda?**

Rhy dda.

**Hoff fwyd?**

Tôst gydag eog, afocado a phupur du.

**Hoff ddiod?**

'Aber Falls Marmalade Gin' gyda rhew, tonic a sleisen o oren.

**Pwy fuasai'n cael dod allan i fwyta efo chi?**

Rhys Ifans.

**Lle sydd orau gennych?**

'Davey Jones' Locker' ar y cei yn y Bermo.

**Lle cawsoch chi'r gwyliau gorau?**

Yn Barcelona ym mis Hydref 2019.

**Beth sy'n eich gwylltio?**

Dwi ddim yn gwylltio'n hawdd.

**Beth yw eich hoff rinwedd mewn ffrind?**

Hiwmor a gonestrwydd.

**Pwy yw eich arwr?**

Dwi ddim yn dilyn arwyr – dim ond syniadau.

**Beth yw eich bai mwyaf?**

Dwi'm am ddweud.

**Beth yw eich syniad o hapusrwydd?**

Carafanio gyda ffrindia' yn Aberdaron.

**Beth fuasech chi yn ei wneud efo £5000?**

Prynu cwch a chwara' o gwmpas ar y cei yn y Bermo.

**Eich hoff liw a pham?**

Glas (teal).

**Eich hoff flodyn?**

Lili Madona.

**Eich hoff gerddor?**

Keith Richards – Rolling Stones

**Pa dalent hoffech chi ei chael?**

Syrffio'r tonnau go iawn.

**Eich hoff ddywediadau?**

"I've learned that people will forget what you said, people will forget what you did, but people will never forget how you made them feel." Maya Angleou.

**Sut buasech chi'n disgrifio eich hun ar hyn o bryd?**

Yn aflonydd.



## Wythnos Cymorth Cristnogol, 10–16 Mai 2020

Prin fod diwrnod yn mynd heibio nad ydyw effeithiau'r argyfwng hinsawdd yn cael sylw ar y newyddion. Yma yng Nghymru, rydym wedi wynebu stormydd cryf, gyda llifogydd difrifol yn achosi difrod mawr i gartrefi a busnesau. Mewn gwlad fel Kenya, fodd bynnag, sychder yw'r broblem fawr, gyda phobl yn gorfod cerdded milltiroedd i chwilio am ddŵr fydd yn eu galluogi i dyfu cnydau i fwydo eu hunain. Mae Wythnos Cymorth Cristnogol eleni yn canolbwyntio ar effaith yr argyfwng hinsawdd ar Kenya a'i phobl. Eleni bydd yr Wythnos yn edrych yn wahanol iawn i'r arferol oherwydd y Coronafirws. Nid yw'r Wythnos wedi ei chanslo, fodd bynnag. Mae'r gwaith yn parhau er

bydd yn wahanol iawn. Cawn glywed hanes Rose, sy'n wraig 67 oed ac yn gofalu am ei hwyron. Mae'n gorfod cerdded chwe awr pob dydd i gasglu dŵr. Hebdo, ni all dyfu cnydau a pharatoi bwyd maethlon i'w theulu. Meddai, 'Mae'r sychder wedi bod yn ddifrifol. Rydym wedi cael tri mis hir heb law. Rydym yn dioddef.' Clywn hefyd gan Florence. Arferai hithau gerdded pellter maith ond ers i'w chymuned godi argae pridd yn ymyl ei phentref gyda help gan bartner Cymorth Cristnogol, mae ei bywyd hi a'i chymdogion wedi ei drawsnewid. Mae'r sychder lawn mor ddrwg, ond gyda'r argae mae posibl cronni dŵr ar gyfer y tymor sych. Mae Wythnos Cymorth Cristnogol yn gyfle i godi arian i

helpu mwy o gymunedau tebyg i un Florence – cymunedau sydd ar linell flaen yr ymdrech yn erbyn yr argyfwng hinsawdd. Er na fydd y cyfarfodydd arferol yn digwydd yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol, bydd cyfleoedd gwahanol i gyfrannu tuag at y gwaith. Dyma gyfle arbennig i wneud rhywbeth dros y tlotaf yn ein byd - y bobl sy' wedi cyfrannu lleiaf tuag at yr argyfwng, ond sydd er hynny'n gorfod wynebu'r effaith mwyaf. Am fwy o wybodaeth am yr Wythnos a'r newidiadau fydd iddi eleni, os gwelwch yn dda ewch i'n gwefan: <https://www.christianaid.org.uk/about-us/christian-aid-week/coronavirus-guidance>

# Cyngor ar Coronafirws Newydd (COVID-19) ar gyfer aelodau'r cyhoedd

## Pa mor ddifrifol yw'r coronafeirws?

- Gall achosi symptomau sy'n debyg i'r ffliw, gan gynnwys twymyn, peswch ac anhawster anadlu
- nid yw'r haint yn ddifrifol i'r rhan fwyaf o bobl, gan gynnwys plant
- nid oes brechlyn ar gael ar hyn o bryd
- mae'r rhan fwyaf o bobl yn gwella gyda digon o orffwys, dŵr i'w yfed a meddyginiaeth ar gyfer poen

## Pa mor debygol ydych chi o ddal y feirws?

- gallwch ei ddal dim ond os ydych chi wedi bod yn agos at berson sydd â'r feirws
- mae'r siawns o ddod i gysylltiad â'r feirws yn isel yn y DU ar hyn o bryd
- os ydych chi wedi teithio i ardaloedd lle mae llawer o bobl wedi'u heintio, mae eich siawns o ddal y feirws yn uwch, h.y. Tsieina ac unrhyw ardaloedd yr effeithir arnynt

## Sut y gallwch atal achosion o'r coronafeirws rhag lledaenu?

### Os oes angen i chi beswch neu disian



**Dylech ei ddal**  
â hances bapur



**Ei daflu i'r bin**



**Ei ddifa**  
drwy olchi eich dwylo â sebon a dŵr neu ddiheintydd dwylo

### Dylech olchi'ch dwylo â sebon a dŵr neu ddiheintydd dwylo



Ar ôl egwyliu a gweithgareddau chwaraeon



Cyn coginio a bwyta



Wrth gyrraedd unrhyw leoliad gofal plant neu addysgol



Ar ôl defnyddio'r toiled



Cyn gadael eich cartref



Ceisiwch beidio â chyffwrdd eich llygaid, trwyn, a'ch ceg â dwylo heb eu golchi



Peidiwch â rhannu eitemau sy'n dod i gysylltiad â'ch ceg fel cwpanau a photeli



Os ydych chi yn sâl peidiwch â rhannu eitemau fel dillad gwely, llestri, pensiliau a thywelion



Dylech atal germau rhag lledaenu drwy ddefnyddio'r adnoddau e-Bug ar hylendid y dwylo a resbiradol sydd ar gael drwy [e-bug.eu](https://e-bug.eu)

## Beth ddylech ei wneud os ydych chi yn teimlo'n sâl?

Cadwch draw oddi wrth eraill ac arhoswch gartref i atal yr haint rhag lledaenu. Osgowch gludiant cyhoeddus os credwch fod gennych symptomau coronafeirws.

Os credwch fod gennych symptomau coronafirws, ffoniwch Galw Iechyd Cymru ar 0845 4647 neu GIG 111 os yw ar gael yn yr ardal, i gael cyngor. Dilynwch gyngor Llywodraeth Cymru ar gyfer lleoliadau gofal plant neu addysgol: <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-covid-19-ar-gyfer-lleoliadau-addysgol>.

Dylai staff, myfyrwyr a disgyblion sydd wedi dychwelyd o rai gwledydd penodol hunan-ynysu, a pheidio â mynychu addysg na gweithio am 14 diwrnod hyd yn oed os nad ydych chi'n cael unrhyw symptomau: [gov.uk/government/publications/covid-19-specified-countries-and-areas](https://gov.uk/government/publications/covid-19-specified-countries-and-areas)

[icc.gig.cymru/coronafeirws](https://icc.gig.cymru/coronafeirws)

# Taith merched ddydd Mercher, 4 Mawrth

Siom oedd deffro i law ben bore, a thaith wedi ei threfnu ar gyfer 'merched ddydd Mercher' o bob cwr o ogledd Cymru. Y man cyfarfod oedd stesion Harlech, a'r trêrn yn cyrraedd o'r de a'r gogledd rhyw 10.20 y bore. Ar ôl i bawb gyrraedd, cychwyn i fyni'r rhiw i gyfeiriad Llanfair er mwyn cael golwg ar adeilad hyfryd Wern Fawr, yr adeilad gwreiddiol a godwyd cyn sefydlu Coleg Harlech yno.

Yna dilynwyd llwybr y coleg i Bron y Graig lle cafwyd golygfeydd o Forfa Harlech, Eryri a Phen Llŷn yn ymestyn tua'r gorllewin. Cafodd rhai o'r merched gyfle i eistedd ar gadeiriau trawiadol 'llwybr y chwedlau'.



Ar ôl cael cip sydyn ar yr hen Laethdy, fu'n gapel ar un pryd, aed ymlaen heibio Pant Mawr ac i fyni'r caeau uwchben yr hen ffordd rhwng Llanfair a Harlech. Cyrraedd fferm Brwynllynau a chael ein cinio ar safle cytiau'r Gwyddelod. Yna dilyn y ffordd at Foel Senigl ond, yn hytrach na'i dringo, gan fod y ddaear yn dal yn wlyb ac yn llithrig iawn, penderfynwyd dilyn y llwybr heibio adfail Garth Mawr Hen, heibio Garth Mawr, ac i lawr i Harlech heibio Cae Du.



Aros ennvd wrth hen bwll bedyddio'r Bedyddwyr Albanaidd, cyn crwydro draw heibio fynwent Capel Ucha i gael cip ar rhai o dai crand Harlech yn cynnwys Llys Mawr. Wedi paned a chacen yng Nghaffi'r Castell, cerddodd y merched i lawr 'stryd mwyaf serth y byd' ac yn ôl i'r stesion i ddal y trêrn am adra, a'r haul erbyn hynny'n tywynnu'n braf.

## Y Barcud



Wel, roedd gen i bethau i'w dweud, ond roedd angen llun i fynd efo'r erthygl. Fel maen digwydd yn aml, mi ddoth y syniad pan o'n i'n mwynhau paned o goffi a darllen erthygl am sut i dynnu lluniau o adar yn hedfan. Dydw i ddim wedi gwneud llawer o hynny o'r blaen gan mod i wedi bod yn ddigon bodlon tynnu lluniau o'r tirlun. Mi wnes i dreulio gweddill y diwrnod yn astudio y camera a'i osod yn iawn. Roedd y diwrnod wedyn yn mynd i fod yn sych a phenderfynais fynd i Landdeusant lle maen nhw'n bwydo'r barcud. Yn ôl fy arfer ro'n i'n rhy gynnar ond treuliais dri chwarter awr yn mwynhau tawelwch yr ardal.

Mi ddoth yr amser a rhois dair punt am fy lle yn y guddfan a gwneud yn siŵr unwaith eto bod y camera wedi cael ei osod yn iawn. Roedd y barcutiaid yn uchel yn yr awyr a'r brain yn eistedd yn y coed; maen nhw i gyd yn gwybod pryd mae amser cinio. Mi wnaeth pethau ddigwydd yn gyflym unwaith ddoth y dyn efo'i fwced o gig. Yn sydyn roedd cwmwl ffyrnig o farcutiaid yn ymladd am y bwyd ac yn troi yma ac acw i osgoi ei gilydd; doedd dim un damwain! Cymerodd dipyn o amser i mi ddod i arfer â dilyn aderyn yn hedfan mor gyflym, a phob eiliad ro'n i'n pwysu'r botwm roedd deg llun yn cael eu tynnu. Erbyn y diwedd roedd 368 o luniau ar y cerdyn, ac roeddwn i'n gallu taflu'r rhan fwyaf a dwsin i'w cadw. Dyma oedd y gorau. Roedd popeth drosodd mewn llai na hanner awr ond mi ges i hwyl. Yma yng Nghymru roedd yr ymdrech cyntaf i achub y barcud. Yn yr 1930au doedd dim ond 20 ohonyn nhw ar ôl ond gyda dyfalbarhad maen nhw wedi lledaenu dros Gymru i gyd erbyn hyn. Mae rhai o'n hadar ni wedi eu hallforio i Iwerddon felly allech chi weld barcutiaid yn ardal mynyddoedd Wicklow. Os oes gennych chi siawns o weld y barcutiaid yn cael eu bwydo peidiwch â cholli'r cyfle ond ar eich tro cyntaf peidiwch â mynd â'ch camera. Mwynhewch gyda'ch llygaid! Dewch efo ni i fwynhau ein cefn gwlad; edrychwch ar ein gwefan cymdeithasedwardllwyd.cymru i weld os ydan ni'n cynnal ein teithiau yn wyneb yr argyfwng diweddaraf yma ond, os fyddwn i, mae croeso mawr i chi!

Rob Evans

**YN EISIAU  
IS-OLYGYDDION  
I'R PAPUR HWN**

**Llais  
Ardudwy**

Mae ôl-rifynnau  
Llais Ardudwy  
i'w gweld ar y we.  
Cyfeiriad y safle yw:  
[http://issuu.com/  
llaisardudwy/docs](http://issuu.com/llaisardudwy/docs)

**Llais  
Ardudwy**

# LLANBEDR, CWM BYCHAN A NANTCOL

## Teulu Artro

Croesawodd Glenys, ein llywydd, ni ar bwn braf gan ddymuno adferiad iechyd buan i Pat sydd yn Ysbyty Maelor ers rhai wythnosau. Yna croesawodd ein gŵr gwadd sef Brian Evans o Lanystumdwy. Cafwyd pnawn o hel atgofion ganddo am gymeriadau ardal Talsarnau pan oedd yn ifanc. Soniodd am y siopau oedd yno a'r trigolion. Aeth â ni am dro ar gylch i Soar ac yna ymlaen at Eglwys Llandecwyn ac yna'n ôl i Dalsarnau, gan sôn am Ieuan Jones fu yn byw yn Stabal Mèl. Adroddodd beth o waith Ieuan o'i lyfr yng Nghyffres Beirdd Bro rhif 4, ac yna ychydig o'i waith ei hun. Darllenwn waith Brian yn aml yn y Ffynnon. Cafwyd pnawn diddorol iawn yn ei gwmmi. Enillwyd y raffl gan Eirwen ac Elinor.

## Dwy brofedigaeth

Bu farw Ieuan Jones, Rhosfawr, ar drothwy ei gant oed ar 26 Chwefror. Bu'n derbyn Llais Ardudwy ers blynyddoedd. Anfonwn ein cydymdeimlad â'i ferched Rhian ac Iola. [Bu farw eu mam, Dorothy Stephens, Maesygarneidd gynt, rai blynyddoedd yn ôl Bu farw ei frawd yng nghyfraith y diwrnod canlynol, sef William Stephens, Ty'nlon, Caergybi, Maesygarneidd gynt, yn 95 oed. Cydymdeimlwn â'i wraig Eunice a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

## Telynor Mawddwy

Diolch i Les Darbyshire am roi hanes Telynor Mawddwy a'i deulu i ni. Roeddwn yn edrych ymlaen i'w ddarllen bob mis. Mae gennyf gof ohono yn dod i bregethu yn Beser, ac yn mynd i'w siop yn Bermo. Roedd yn wr galluog ac annwyl iawn. Er i mi ddarllen llyfr David Elis Roberts 'Tr pridd heb arch' ni wyddwn ddim o hanes ei deulu. Diolch yn fawr i Les Darbyshire am roi yr hanes ar gof a chadw.

GJ

## Clwb Cawl

Ni fydd yna Glwb Cawl yn y Neuadd am beth amser. Diolch i Jane am fod mor feddylgar gan fod rhan dda ohonom dros ein 80 oed.



Aelodau Cangen Nantcol o Ferched y Wawr yn dathlu Gŵyl Ddewi gyda gwledd ardderchog ym Mistro'r Castell yn Harlech

## Geni gor-ŵyr

Llongyfarchiadau i Catherine a Huw Jones, Ty'n Llan, ar enedigaeth gor-ŵyr iddynt, Eifion, mab bach Siân ac Elgan yn Llanuwchllyn. Mae Eifion yn ŵyr i Brian Williams Bryn Deiliog. Ein dymuniadau gorau iddynt.

## Diolch

Diolch i Edith Owen am ei rhodd o £10.50 i Llais Ardudwy

## 'Weatherman Walking'



Derek Brockley a Pam Odam

Welsoch chi'r rhaglen *Weatherman Walking, the Welsh Coast* ar eich sgrîn deledu nos Wener, 27 Mawrth? Roedd y bennod gyntaf yn dilyn Derek Brockway ar ei daith o Harlech i'r Bermo, a braf oedd ei weld yn sgwrsio efo nifer o bobl Ardudwy ar hyd y daith – Pam Odam yn Eglwys Llandanwg, Catrin Richards yng Nghapel Salem, Sarah Tibbetts, un o'r *Cambrian Beach Guardians* am eu hymdrech nhw i lanhau traethau, a Rhodri Dafydd o Dyffryn yn sôn am Forfa Harlech a'r crwbân môr enfawr a ddaeth i'r lan yno rai blynyddoedd yn ôl. Llongyfarchiadau iddyn nhw i gyd un ac oll.

## Lleoliadau Cwm Nantcol

Yn rhifyn mis Mawrth o Llais Ardudwy, cyhoeddwyd rhestr o enwau caeau a llefydd yng Nghwm Nantcol gan Morfudd, Hendre Waelod. Dyma ymateb Duncan Brown ynglŷn ag ystyr a ffynhonnell rhai o'r enwau hynny.

### grwn

[Llyd C Gronn 'pentwr', Llyd. Diw. gronn o'r gwr. \*ghrendh- 'cefn rhwng rychau'] eg ll grynnau, gryniau.

Cefn neu drum o dir mewn cae, darn o dir (neu nifer o gwysi) mewn cae wedi ei aredig (a ffinir ar y naill ochr a'r llall â rych) a chefn yn ei ganol sy'n ymestyn o dalar i dalar, a'r cwysi'n gogwyddo tua'r cefn o'r naill rych a'r llall; Cyfr. y darn tir â rhwng dau rych (yn ôl yr Hen Gyfreithiau ei led oedd 27 o droedfeddi); gwely neu bâm hir mewn gardd; darn neu rimyn o dir (ee bedd, daear, maes brwydr, tiriogaeth); yn dros. a ffig. cnwd y grwn, llinach, gwehelyth, hil:

### cotel

[?bnth. ff. S. \*cottle, bach. o'r S. cot neu o ff. Lad. Diw. cotellus, cotella; cf. Crn. cotelle 'coed' yn ôl Wm. Pryce: Arch. Cornu-Brit.] eb. ll. cotelau. Llain o dir yn culhau at un pen iddo, congl fechan, cilfach; cae bychan, clos: *slip or slang of land narrow at one end, small corner, nook; paddock, close, enclosure.*

## CYLCH MEITHRIN LLANBEDR




Plant Cylch Meithrin Llanbedr yn dathlu Dydd Gŵyl Ddewi. Cawsom hwyl yn creu cennin Pedr a pharatoi cawl i ddathlu'r diwrnod. Hoffem ddiolch am yr holl gefnogaeth.

# LLANFAIR A LLANDANWGW

## Llyfrau difyr

Efo'r argyfwng difrifol yma ledled y byd ar hyn o bryd, a phawb yn gorfod aros yn eu cartrefi, pa lyfrau ydych chi wedi bod yn eu darllen?

Un llyfr difyr dros ben ydy 'Discovering Welsh Houses', golygydd Michael Davies, sy'n



cyd-fynd â chyfres deledu ar y BBC yn 2007. Yn y llyfr, ceir hanes deunaw o dai difyr a gwahanol yng Nghymru, yn cynnwys un o Ardudwy, sef Sarn Badrig, a saif ar y ffordd rhwng Llanfair a Harlech. Dydy'r tŷ ddim yn un sy'n amlwg wrth ei basio; byngalo gyda rendr gwyn a ffenestri metel, ond gyda'i olygfa drawiadol o Forfa Harlech, Eifionydd a Phen Llŷn, a mynyddoedd Eryri, mae ganddo stori unigryw.

Daw enw'r tŷ o un o dair rîff sy'n ymestyn allan i'r bae tuag at Iwerddon, Sarn Badrig. Ar ddistyll mae rhywfaint o'r rîff i'w gweld uwchben wyneb y dŵr, ac yn ôl y chwedl mae angylion yn ei cherdded o Iwerddon yn ystod y nos.

Bydd llawer yn yr ardal yn adnabod Gwilym a Pat Hughes, perchnogion y tŷ ers dros 30 mlynedd. Roedden nhw wedi

bod yn ymweld â Harlech gan aros yn nhai gwyliau pobl eraill. Penderfynodd y ddau brynu rhywle iddyn nhw'u hunain a dywedodd ffrind wrthyn nhw bod tŷ ar werth. Dyma'n union be oedd ei angen ar eu teulu ifanc – haul, tywod a bywyd syml. Nhw'u dau oedd perchnogion Cymreig cyntaf y tŷ. Aeth Pat ati i ymchwilio i hanes y tŷ a chlywodd bod gan y gwesty, ganllath i fyny'r arfordir, gysylltiad â'r tŷ.

Roedd cwmni Cadburys, cynhyrchwyr siocled o Birmingham, wedi prynu Hafod Wen yn 1922 fel cartref i'w gweithwyr adfer wedi salwch. Felly cychwynnodd y cysylltiad hir rhwng Cadburys a Harlech, sy'n parhau hyd heddiw.

Ysgrifennodd Pat at Cadburys ac anfonodd lun o Sarn Badrig iddyn nhw, gan ofyn a oedden nhw'n adnabod y tŷ. Cafodd lythyr dymunol iawn yn ôl gan Syr Adrian Cadbury, yn dweud ei fod yn adnabod y tŷ'n dda, ac wedi bod yno. Codwyd y tŷ gan ei gefnder, Harrison Barrow. Gŵr busnes amlwg oedd hwn a gwleidydd lleol o'r Midlands. Pan oedd cwmni Cadburys, a oedd ag enw da o safbwynt trin eu gweithwyr, yn cau i lawr am bythefnos yn ystod yr haf, roedd bron y cwbl o bentref Bournville yn dod i aros i Harlech, ac roedd fel gwyliau teuluol mawr. Rhedai trên yn uniongyrchol o bentref Bournville i Harlech. Codwyd Sarn Badrig ar lethr, felly wrth i chi ei gyrraedd o'r ffordd, rydych yn gweld ei do yn codi uwchben yr amrywiaeth o lwyni sy'n ei amgylchynu.

Saif y drws ffyrnt yng nghornel yr adeilad siap-L sy'n hafan yn llygad yr haul. Gan fod

deunyddiau codi tŷ yn brin rhwng y ddau ryfel, daethpwyd â'r holl ddeunyddiau a llafur o'r Midlands. Llechi o Gernyw sydd ar y to. Serch hynny, mae'r cyfuniad o ddeunyddiau'n gweithio'n berffaith. Mae cynllun y tŷ'n syml iawn ac eto'n berffaith i'w leoliad.

Cynlluniwyd pob ystafell ar gyfer yr olygfa, ac o ffenestri'r tŷ gwelir traeth hir Harlech wrth iddo ymestyn tua'r gogledd a Phorthmeirion. O ran arddull mae'r tŷ'n debyg i'r symudiad *Arts and Crafts* gyda defnydd o ddeunyddiau naturiol o ansawdd da. Manylion syml, a chreffftwaith hyfryd. Mae lloriau'r tŷ i gyd yn dderw. Yr unig gwir newid a wnaed gan y teulu Hughes oedd gosod yr unedau cegin, eto o bren sy'n gweddu â'r tŷ.

Bu Sarn Badrig ym meddiant Harrison Barrow hyd ei farwolaeth yn 1953, ac mae Pat yn credu ei bod yn bwysig cadw ei draddodiadau yn fyw, felly mae hi'n cadw ffotograff ohono fo ar wal yr ystafell fyw. Mae hi hefyd yn cadw'r cysylltiad â Cadburys drwy osod bar bach o siocled ar obennydd pawb. Tŷ syml, felly, ond cymaint yn fwy oherwydd yr olygfa ragorol. Yn ogystal ag adrodd hanes y tŷ, mae'r llyfr hefyd yn cynnwys lluniau trawiadol o'r tŷ a'r golygfeydd – ewch i holi am gopi; mae'n werth ei ddarllen.

HM

## Llyfr difyr i bobl Sir

**Feirionnydd wedi ei gyhoeddi**  
Sylwer bod cyfrol Glenda Carr, Hen Enwau o Feirionnydd (Gwasg y Bwthyn, ISBN: 9781912173327) bellach wedi ei chyhoeddi, ac y bydd ar gael mewn siopau llyfrau yn fuan.

## Golff

### Cystadleuaeth Meistri Amatur Hŷn Ewrop [Merched]



Cafodd Ann Lewis, Min-y-môr, Llandanwg a'i mab, Iwan [y cad] wythnos braf iawn yn ninas Valencia, Sbaen ddechrau mis Mawrth.

Er bod y tywydd yn braf, roedd braidd yn wyntog ar brydiau. Roedd y cwrs o safon ardderchog a safon y cystadleuwyr yn hynod o uchel - gyda nifer o gyn-enillwyr o fri yn cystadlu a hynny o bob gwlad dan haul.

Er y gwyntoedd cryfion, fe lwyddodd Ann i ennill y drydydd wobwr sy'n berfformiad clodwiw iawn. Llonyfarchiadau fil iddi a diolch am roi yr ardal hon ar y map unwaith eto.

## LLYTHYR

### Annwyl Olygydd,

Gan Wil Owen y bydda i'n cael copïau o'r Llais rŵan a bore 'ma bum yn darllen rhifyn mis Chwefror. Llonyfarchiadau mawr i chi. Cefais bleser mawr yn ei ddarllen. Yr wyf wedi mwynhau pob un o gyfraniadau Les Darbyshire am Delynor Mawddwy ond y mae'r un yn rhifyn Chwefror yn hollol gyfareddol. Am stori! Ellid dim dychmygu'r fath hanes. Mwynheais hefyd erthygl gyntaf Edward M Thomas ar 'Hogia a merched yr *Highways*'. Tybed fŷm i'n dysgu'r Edward Thomas yma? Rwy'n cofio bachgen o'r un enw yn niwedd y chwedegau, bachgen arbennig o dda a pherson hoffus iawn o deulu rhagorol. Un o'm hoff lecynnau yn y byd ydy Cwm Nantcol (Cwm Nantcol ac Abermenai a hefyd Rhyd-ddu) a daeth cyfraniad Meurig Hendre Waelod â llu o atgofion i mi.

Llonyfarchiadau mawr i chi ar ddeunydd darllen cyfareddol - hyd yn oed ar ôl hanner can mlynedd.

### Cofion cywir,

### Geraint (Percy)

Gol: Bu Geraint Percy Jones yn athro yn Ysgol Ardudwy ar ddiwedd y 60au a bu ef a Meira, ei wraig, a'r hogiau'n byw ar Ffordd Uchaf, Llanfair am gyfnod. Bellach mae'r ddau yn byw ym Mangor ond, fel y gwelwch, o'r uchod, yn dal i werthfawrogi cael hanes Ardudwy.



Sarn Badrig

# GRŴP LLANBEDR - HUCHENFELD

Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig yn Eglwys Sant Pedr, Llanbedr fore Sul Mawrth 15fed i gofio 75 mlynedd ers llofruddiaeth y pum aelod o griw'r Awyrlu Brenhinol (RAF) yn Huchenfeld.

Roedd y gwasanaeth teimladwy dan ofal y Tad Tony Hodges efo Stephanie Beacon yn rhoi'r bregeth. Cawsom hefyd gyflwyniad manwl a diddorol gan Adrian Williams, Swyddog Awyrlu Cymru am ddiwyddiadau'r noson honno pan fu raid i'r dynion adael awyren John Wynne. Ar ôl y gwasanaeth mwynhawyd paned a sgwrs yng Nghaffi'r Wenallt.

Ac yn yr Almaen ...



Eglwys Huchenfeld

Ar y 17eg o fis Mawrth eleni, y dyddiad 75 mlynedd yn ôl i aelodau criw John Wynne gael eu lladd yn Huchenfeld, cyfarfu grŵp bach ohonon ni y tu allan i Eglwys Huchenfeld i gofio am FO James Vinall, FO Harold Frost, FO Gordon Hall, Flt Lt Sidney Matthews a Flt Sgt Edward Percival.




O dan y plac efo enwau'r pum dyn cynhawyd kannwyll i bob un dyn. Roedd 'na hefyd flodeudorch mawr o babiâu coch gan Eglwys Huchenfeld, un gan grŵp ieuencid yr ardal "Stadtjugendring", ac un er cof am Marjorie Frost-Taylor, gweddw Harold Frost, oedd yn gweithio'n galed iawn dros gymodi rhwng yr Almaen a Phrydain. A chan ein pentref ni ... tusw o gennin Pedr, yn union 75 ohonyn nhw, efo cerdyn bach yn dweud: "Oddi wrth Llanbedr". Yn anffodus, oherwydd feirws y goron, nid oedd yn bosib cael gwasanaeth yn yr eglwys.



Ochr Eglwys Huchenfeld

Mae'r plac rhwng y ddwy ffenestr hir. O flaen y plac, gwelir y fainc a roddwyd gan John Wynne a cholofn er cof amdano a godwyd y llynedd gan bobl Huchenfeld.

## GWYLLIAID Bethan Gwanas



Nofel antur go iawn sydd yma, wrth i Rhys o Gaerdydd a Mari o sir Feirionnydd fynd yn sownd mewn storm o eira. Rywsut mi ddônt ar draws ei gilydd ger Dinas Mawddwy ac o'r cychwyn mae'r gwahaniaeth rhwng y ddau gymeriad yn fawr. Merch y wlad yw Mari sy'n ddeg oed ond mae Rhys, sy'n ei ardegau, yn amlwg yn dod o'r ddinas. Ei iPad, iPod a phob dim cyfrifiadurol arall sy'n mynd â'i fryd a does ganddo fawr o sgwrs. Dyfalwn fod yr awdur yn fwy hoff o'r ferch fach o Feirionnydd – hwyrach ei bod yn ei gweld yn debyg iddi hi ei hun. Ond fe gynheswn yn fawr at Rhys

wrth iddo orfod delio â phob math o sefyllfaoedd ar ôl iddo ef a Mari ddod o hyd i'r cleddyf hud. Yn wir, yn sydyn o ganol yr eira, fe ddiflanna'r ddau i gyfnod y Gwylliaid yn 1554 a dyna ddechrau ar stori antur hynod. Dyma stori lawn cyffro sy'n dod â rhywfaint o hanes y cyfnod yn fyw i ni – cawn wybod am wisgoedd y Gwylliaid ac am eu harferion byw, a chawn glywed am eu gelyn. Mae'r cyfan yn ddoniol ar adegau a hefyd yn emosiynol iawn wrth i'r Gwylliaid ymdopi â'u tranc a hefyd wrth i'r ddau blentyn ymdopi ag arferion byw y Gwylliaid.

Pwysleisia'r awdur fod llawer o'r stori yn ddychmygol ond mae yma ffeithiau hefyd, felly dyma math o nofel y gellid ei chyflwyno mewn gwrs hanes er mwyn bywiogi'r cyfan.

Mae yma ddefnydd da o iaith a thafodiaith, a daw'r cyfan at ei gilydd ar ddiwedd y stori mewn ffordd glyfar ... ond gwell i mi beidio datgelu mwy! Mae gen i blentyn naw oed ac ni ollyngodd hi'r nofel o'i dwylo nes iddi orffen ei darllen. Am chwe phunt namyn ceiniog, dyma fargen a ffilm antur o gyfrol.

**Sarah Down-Roberts**

Adolygiad oddi ar [www.gwales.com](http://www.gwales.com), trwy ganiatâd Cyngor Llyfrau Cymru.

# Teyrnged i Gwynne Jones [Gwynne Bara] - Bethan Johnstone



Cafodd Gwynne ei eni yn 1940 yn Nhanrallt, sef y tŷ o dan y castell. Yn ôl Cynthia, roedd ganddo obsesiwn â'i gastell byth ers hynny. Ymhob man yn y cartref, mae ffotograffau a phaentiadau ohono. Rydyn ni i gyd yn gwybod bod yna ddigon o hwyl lle bynnag roedd Gwynne. Byddai'n siarad â chi o ddifrif am rywbeth ac yn sydyn buasech chi yn sylweddoli ei fod yn tynnu'ch coes. Byddwn i'n dweud, "Gwynne, y coblyn", ac yna fe fyddai'n cael hwyl fawr ac yn chwerthin dros y lle.

Dioddefodd yn ddrwg gydag asthma o oedran ifanc iawn. Roedd bob amser yn arfer dweud mai ysmegu oedd yn gwella ei asthma. Byddem ni'n dweud, "Cer o 'ma." Ond dywedodd Dr Williams (Doctor Bach) wrth dad Gwynne, "y tro nesaf y bydd yn cael pwl o'r asthma, rhowch un sigarét 'Woodbine' iddo fo!" Rhag ofn nad yw rhai ohonoch chi'n gwybod beth yw hynny, roedden nhw'n sigarét poblogaidd iawn y dyddiau hynny. Ni fuasech chi'n clywed meddyg yn rhoi'r cyngor hwnnw heddiw! Mae'n debyg iddyn nhw helpu ac roedd wedi tyfu allan o'r asthma erbyn iddo fod tua 16 oed. Ond fe aeth i drafferth gyda rhai o'i athrawon yn yr ysgol pan wnaethon nhw ddarganfod ei fod yn cario sigarét yn ei boced. Cafodd ei gosbi'n ddifrifol gan rai ohonyn nhw. Fe aeth ei dad i'r ysgol i gwyno.

Pan oedd tua 5 neu 6 oed, cymrodd ran yng ngharnifal Harlech. Roedd wedi ei wisgo mewn siwt sidan wen, gyda het fawr â brim a phluen wen

enfawr ynndo; y cyfan wedi'i wneud gan ei fam. Gwynne arweiniodd yr orymdaith yn cario clustog sidan gwyn, gyda choron y frenhines newydd arni. Dywedais wrtho unwaith, "Mae'n rhaid dy fod wedi bod yn fachgen bach da."

"Pam dwad?"  
"Wel, heddiw fydddech chi ddim yn gwisgo bachgen bach mewn gwyn, mi fyddai'n fudr iawn o fewn munudau fel y mae plant yr oes yma."

Ei ateb oedd, "Peidiwch ag anghofio, Beth, fe'ch magwyd chi a minnau i barchu pobl hŷn. Pe byddent yn dweud wrthyh am aros yno, peidiwch â symud, mi fasen ni'n gwneud fel y dywedwyd wrthym."

Roedd yn addoli ei gefnder - y diweddar Arwel Jones. Chwaraeodd Arwel bêl-droed i dîm Porthmadog. Ni fethodd Gwynne erioed fynd i'w weld yn chwarae.

Hefyd yn ifanc iawn, daeth yn aelod o'r band lleol, ynghyd â'i dad, ei frawd mawr Jim a Rhiannon ei chwaer fach. Roedd y pedwar ohonyn nhw, yn aelodau balch o fand arian Harlech, ac arhosodd ei gariad at y band gydag ef ar hyd ei oes. Dyna oedd y gerddoriaeth a glywsom wrth inni ddod i mewn ar gyfer y gwasanaeth hwn. Mae sawl un ohonom yma heddiw wedi eu magu yn yr un cyfnod â Gwynne. Aethom i'r un ysgol gynradd, yr un côr plant, yr un Ysgol Sul. Cefais fy medyddio efo Gwynne a Jim ac Ernest (brawd Lilian) ond dydd i ddim yn cofio bod Gwynne yn gapelwr mawr. Fe wnaethon ni i gyd deithio ar y trê'n i Ysgol Ramadeg Bermo.

Pan adawsom yr ysgol, aethom i gyd ein ffyrdd ein hunain ac ar wahân. Ond rydyn ni bob amser wedi aros yn ffrindiau da. Yn ystod gwyliau ysgol, ac ar benwythnosau, byddai Gwynne yn gweithio i Miss Jones, London House. Bu hefyd yn rhannu ei oriau gyda Mr a Mrs Carter, ar draws y ffordd yn Jac-do, fel y mae rhai ohonom yn dal i'w alw. Roedden nhw'n gwneud gemwaith a'i werthu yn y siop. Ar ôl iddo adael yr

ysgol, aeth i weithio i Bowater, y cwmni adeiladu yn Nyffryn Ardudwy. Roedd ganddo swydd gyfrifol yno, gyda rhan ohoni yn gyfrifol am baratoi yr holl gyflogau yno.

Pan adawodd yno dechreuodd ar ei waith o ddisbarthu bara. A dyna sut roedd pawb yn ei nabod - fel Gwynne Bara. Roedd bob amser yn awyddus iawn i chwarae chwist a byddai'n gyfrifol am drefnu gyrfaedd chwist yn lleol a byddai'n teithio i bentrefi eraill i chwarae hefyd. Cyfarfu a phriodi Olwen ac roedd bob amser yn falch iawn o'r pedwar o blant. Yn anffodus chwalodd y briodas, er iddynt aros yn ffrindiau am nifer o flynyddoedd.

Bu'r gynghrair snwcer yn rhan o'i fywyd ers blynyddoedd lawer. Roedd fy mab, Peter, a llawer o fechgyn ei oedran yn ffodus iawn eu bod wedi cael dylanwad Gwynne wrth y bwrdd snwcer. Roedd bob amser yn eu hannog ac fe wnaethant ffurfio tîm yn ymweld â chlybiau snwcer eraill. Byddai Gwynne yn helpu i'w cludo gan ddefnyddio ei gar ei hun. Roedd bob amser yn dod â nhw adref, nid i ben y ffordd ond bob amser at y drws. Roedd yn falch iawn ei fod wedi cael ei wneud yn llywydd anrhydeddus y gynghrair snwcer, yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Priododd ef a Cynthia ym 1973 ac maent wedi byw yn Llanbedr ers hynny. Bu'n gweithio am ychydig flynyddoedd gyda fy ngŵr. Mae fy merch, Judith, yn cofio mai Gwynne a ddysgodd iddi reidio beic. Y genhedlaeth nesaf i lawr rŵan, a ddywedodd wrth ei mab fod Gwynne wedi mynd - a'i ateb oedd, "O na mam, nid Santa Clòs!"

Nid wyf yn gwybod faint ohonoch sy'n cofio fel y byddai Capel Rehoboth yn trefnu teithiau cerdded noddedig. Ffilmiodd fy ngŵr nhw i gyd. Bu hen grwydro mewn hen 'Land Rover' eithaf salw (dyddiau cyn MOT!). Roedd yna gyfnod dros y cefn, Fe wnaethant dynnu hwnnw

i ffwrdd a byddai Keith yn sefyll ar ei gefn yn ffilmio gyda Gwynne yn ei yrru. Weithiau, roeddem yn aros mewn manau lle roedd bywyd wedi'i baratoi. Ond pe bai Gwynne yn gweld y camera'n pwyntio i'w gyfeiriad, roedd i ffwrdd fel ergyd.

Yn ystod dyddiau'r carnifal, bu Gwynne unwaith yn helpu Keith gyda'i fflôt carnifal. Ac mewn blwyddyn arall byddai Keith yn helpu Gwynne. Digon o chwerthin a llawer o gwpanau o goffi.

Am gyfnod wedyn bu Gwynne yn gweithio gyda Gerallt ac Ann yn garej Toyota yn y dref bryd hynny.

Ar ôl iddo ymddeol, helpodd Cynthia a Dianne yn Siop y Wenallt. Rydan ni i gyd yn cofio ei fasgedi crog hyfryd y tu allan i'r siop.

Roedd ganddo dalent ym maes coginio hefyd. Ymhen sbel, mentrodd i fyd cystadlu gyda'i gacennau hardd, ac enillodd sawl gwobr yn sioe Harlech. Roedd Gwynne yn hoff iawn o fyd natur ac yn bwydo adar y to a'r jac-do bob dydd. Roedd hyd yn oed yn prynu bara gwenith cyflawn ar eu cyfer.

Roedd wrth ei fodd yn chwilota am ffrwythau a blodau ar gyfer gwneud ei win cartref enwog iawn erbyn hyn. Unwaith eto yn ennill llawer o wobrau yn y sioeau. Rydyn ni wedi gweld ei lun ers blynyddoedd lawer yn Llais Ardudwy a phapurau eraill yn dal ei gwpanau buddugol. Ddwy flynedd yn ôl, derbyniodd y newyddion trist bod ganddo ganser.

Roedd bob amser yn canmol y driniaeth ryfeddol a gafodd gan yr holl feddygon a nyrsys yn Ysbyty Gwynedd a merched Glan Clwyd. Daethant i gyd yn ffrindiau iddo. Yn enwedig Dr Goshall, yr ymgynghorydd radiotherapi. Roedd yn edrych ymlaen at ddathlu ei ben-blwydd yn 80 y Mehefin hwn, ond nid oedd hynny i fod. Ymladdodd yn ddewr ond yn anffodus collwyd y frwydr.

**BJ**



# DYFFRYN ARDUDWY A THAL-Y-BONT

## Genedigaeth

Dymuniadau gorau i Ynyr a Kirstye, 13 Llwyn Ynn, Tal-y-bont ar enedigaeth mab, sef Ilan Wyn Roberts ar Mawrth 18fed. Llongyfarchiadau i'r teidiau a'r neiniau hefyd, sef Einion a Rhian Roberts, a Rodney a Sharon Geer. Pob lwc i'r teulu bach.

## Cyfarfod Gwedd Merched y Byd

Cynhaliwyd y cyfarfod yn Ffestri Horeb bnawn Gwener, 6 Mawrth. Arweiniwyd y cyfarfod gan Einir Jones, Rhian Davenport a Meryl Jones a'r organyddes oedd Rhian Dafydd. Cafwyd cyfarfod bendithiol iawn a diolch yn fawr i bawb a gymerodd ran eto eleni. Cafwyd casgliad o £50.50. Yn dilyn, cafwyd paned a chacen.

## Cydymdeimlad

Anfonwn ein cydymdeimlad llwyraf at Mrs Eunice Stephen, Caergybi (Eunice Mckean, Glanrhos gynt) a'r teulu yn eu profedigaeth o golli Mr William Stephen, priod, tad, taid a hen daid annwyl.

## Festri Lawen, Horeb

Daeth y tymor i ben gyda chinio Gŵyl Ddewi yn Nineteen.57 ar 12 Mawrth. Croesawyd pawb gan y cadeirydd, David Henry Roberts. Wedi'r gwledda cyflwynodd a chroesawodd David ein gŵr gwadd am y noson, sef Myrddin ap Dafydd, yr Archdderwydd presennol. Cafwyd orig gartrefol iawn yn ei gwmmi a chafodd wrandawriad astud iawn. Diolchodd David yn gynnes iawn iddo ac i staff y bwyty am y wledd. Diolch yn fawr i Mai am wneud y trefniadau.

## Diolchiadau

Dymuna Ann Meyrick (Meifod Uchaf) ac Eluned a'u teuluoedd ddiolch i'w teulu a chyfeillion yn Ardudwy am yr holl gardiau, galwadau ffôn a rhoddion a dderbyniwyd ganddynt ar farwolaeth Arwyn mor sydyn ac annisgwyl. Diolch yn fawr.

Rhodd £33

## PRIODAS



Ar ddydd Sul, Mawrth 15 priodwyd Owain Hedd Roberts, mab David a Mai Roberts, Nant y Coed, Dyffryn a Rosie Andrews, merch y diweddar Julian Andrews, Tyddyn Stabal, Llanbedr a Tricia Andrews, Caer rŵan. Cafwyd seremoni arbennig yng Nghernyw gan rannu'r newyddion cyffrous gyda'r teulu i gyd wedyn. Bydd amser i ddathlu eto ar ôl i'r amser dyrys ein gadael. Dymuniadau gorau oll iddynt.

## Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Sophie a Lee, Bron Hyfryd, ar enedigaeth mab bychan, Scott Lee. Mae gan Sophie siop farbwr yn Llanbedr.

## PEN-BLWYDD ARBENNIG



## Pen-blwydd arbennig

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Mrs Beti Roberts, Bellaport, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 ar 15 Mawrth. Dyma wraig a fu'n gweithio'n ddiwyd dros y papur hwn ynghyd â'i gŵr, Ken am flynyddoedd lawer. Hyderwn y cawn nhw flynyddoedd eto o ddedwyddwch yn eu hymddeoliad.

SAMARIAID

LLINELL GYMRAEG

08081 640123



## Smithy Garage

Dyffryn Ardudwy, Gwynedd



Tel: 01341 247799

[www.smithygarage-mitsubishi.co.uk](http://www.smithygarage-mitsubishi.co.uk)

 [smithygaragedyffryn](https://www.facebook.com/smithygaragedyffryn)  [smithygaragetld](https://twitter.com/smithygaragetld) 



**Ar gael ar delerau 0% hurbrynu dros 3 blynedd heb unrhyw isafswm ernes**

## Yn yr ysbyty

Dymunwn wellhad buan i Meirion Owen, Tŷn y Cae, sydd yn Ysbyty Gwynedd wedi derbyn llawdriniaeth. Anfonwn ein cofion cynnes ato a gobeithiwn y caiff ddod adref cyn hir.

## CYNGOR CYMDEITHAS DYFFRYN A THAL-Y-BONT

### TYNNU DWY FFRÂM SIGLEN, EU PEINTIO A'U HAILOSOD YN Y PARC CHWARAE NEWYDD

Os oes gennych ddiddordeb yn y gwaith o dynnu dwy ffrâm siglen, eu peintio a'u hailosod yn y parc chwarae newydd a fyddai'n bosib i chi anfon eich pris mewn amlen dan sêl i'r cyfeiriad canlynol:

Mrs Annwen Hughes, Clerc y Cyngor, Plas Uchaf, Talsarnau, Gwynedd, LL47 6YA cyn gynted ag sy'n bosib os gwelwch yn dda.

Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch ynglŷn â'r uchod, mae croeso i chi gysylltu gyda Chadeirydd y Cyngor, Edward Griffiths (01341 242424/07900 908058)



Cynhaliwyd Rasmus Malu yn y Lasynys yn ôl ym mis Awst ac yn dilyn hynny penderfynodd Clwb Rygbi Harlech eu bod am roi £1,850 i Joshua's Light Foundation ac £1,850 hefyd i DPJ Foundation. Gobeithiwn gynnal noson i godi ymwybyddiaeth o'r ddwy elusen arbennig yma pan fydd cyfle yn y dyfodol. Rydym yn byw mewn amser dyrys ac mae'r ddwy elusen yma yn gwneud gwaith arbennig. Gellir cael rhagor o wybodaeth amdanynt ar y we. Diolch i bawb am gefnogi ein gweithgareddau.

# CYNGOR CYMUNED DYFFRYN A THAL-Y-BONT

## CEISIADAU CYNLLUNIO

Codi tŷ deulawr (marchnad agored) a garej dwbl - Tir ger Tan y Foel, Ffordd Capel, Dyffryn Ardudwy - aildrafod y cais hwn. Roedd yr aelodau yn bryderus iawn ynglŷn â'r mynediad i'r tŷ yn y cais hwn, hefyd yn pryderu y byddai camddefnydd o'r fynedfa sydd rhwng y swyddfa bost yn y pentref ar lloches bws yn cael ei wneud. Felly maent yn gofyn i'r Parc Cenedlaethol a fyddai modd i'r cais gael ei drafod mewn cyfarfod o bwyllgor cynllunio'r Parc ac nid gan swyddog unigol. Hefyd maent o'r farn y byddai cael ymweliad safle yn help er mwyn i aelodau'r pwyllgor gael syniad o safle'r cais cyn gwneud penderfyniad arno.

## MATERION YN CODI

### Templed Rhestr Tendrau

Cafwyd gwybod bod Michael Tregenza ac Edward Williams wedi llunio templed o beth sydd ei angen. Cytunwyd i ddsbarthu hysbyseb yn gofyn a oes gan rai diddordeb mewn nodi eu henwau i fod ar restr tendr y Cyngor ac os felly iddynt gysylltu gyda'r Clerc.

### Agor Tendrau Torri Gwair

Derbyniwyd pum tendr i wneud y gwaith uchod. Cytunwyd bod Mr Gary Coates o gwmini Evergreen yn cael tendr 1 (mynwentydd) a Mr Gary Martayn o gwmini West Coast Properties yn cael tendr 2 a 3 (llwybrau cyhoeddus, parciau chwarae ac o amgylch y seddi ger Ffordd Ystumgwern, Bro Enddwyn, i lawr Ffordd y Llan a Ffordd yr Efall). Hefyd, derbyniwyd pris gan Mr Gareth John Williams i dorri a chlirio'r gwair o amgylch y toiledau yn Nhal-y-bont, hefyd i dorri a chlirio'r gwair ym Mharc Morlo ac i dorri a chlirio'r gwair yng Ngardd Penybont, a byddai'r gwaith o edrych ar ôl y pot blodau ger arwydd Tal-y-bont yn cael ei gynnwys gyda'r gwaith yng Ngardd Penybont a'r gwaith gyda'r potiau blodau ger y toiledau yn Nhal-y-bont.

### Agor Tendrau Fframiau Siglen

Adroddwyd nad oedd tendr wedi ei dderbyn ynglŷn â'r uchod. Cytunwyd i ddsbarthu hysbyseb yn gofyn am brisiau i dynnu'r ddwy ffrâm siglen, eu peintio a'u hailosod yn y parc chwarae newydd.

## GOHEBIAETH

### Cyngor Gwynedd – Adran Briffyrdd

Derbyniwyd ateb ynglŷn â llwybr cyhoeddus rhif 50 (*cutting*) gan Ms Liz Haynes, Swyddog Llwybrau, Cyngor Gwynedd. Roedd yn nodi ei bod wedi ymweld â'r llwybr ddydd Mawrth yr 11eg o'r mis diwethaf gyda'i chydweithiwr a'u bod wedi trafod gwaith yn gyntaf i agor y cylfat presennol gyda llaw, ond wedi cytuno y bydd angen mwy o waith i agor y ffosydd sydd wedi cau ac efallai y bydd hyn yn gorfod aros tan y flwyddyn ariannol newydd. Hefyd, eisiau cyfleu ein diolchiadau i Edward Griffiths am dorri'r goeden oedd wedi disgyn. Cytunwyd i anfon llythyr o ddiolch i Liz Haynes am yr holl waith mae hi wedi ei wneud i'r Cyngor hwn dros y blynyddoedd gan ei bod yn ymddeol o'i swydd y mis nesa.

## ADRODDIAD Y TRYSORYDD

### Ceisiadau am gymorth ariannol

Ambiwlans Awyr Cymru - £500

CFff Meirionnydd - £300

# CROESAIR gan Gerallt Rhun

Yn y pòs hwn mae pob llythyren y wyddor Gymraeg rywle yn y croesair (ar wahân i Ph). Ceisiwch weithio allan pa rif sy'n cynrychioli pob llythyren. Mae tair llythyren wedi eu dadlennu eisoes.

2	17	14	6		2	4	18	14	6	26	1	6
	16				27		2		1		8	
2	6	20	2	3	11		11	26	24	2	6	10
	19				1				3		2	
19	2	6	17	25		23	3	2	21	14	11	10
	26		2		2		2				3	
15	12	14	3		11	16	12	14	11	3	16	21
			14		14		26		26			
11	2	21	9	14	6	8	2		7	3	16	22
	7				16		10		1		27	
13	21	16	11	16	24	10		13	6	2	3	6
	14		1				5				21	
2	11	1	12	3	23		3	16	22	6	1	19
	1		14				16		10		12	
13	12	2	6	14	11	26	23		19	2	26	22

A B C CH D DD E F FF G NG H I L LL M N O P (PH) R RH S T TH U W Y

1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	11	12	13	14
					N				U				
15	16	17	18	19	20	21	22	23	24	25	26	27	28
											I		PH

## EGLWYSI BRO ARDUDWY

Ni fydd gwasanaethau, cyfarfodydd na digwyddiadau yn yr eglwysi ym mro Ardudwy hyd nes ceir rhybudd pellach.

Mae'r eglwysi i gyd wedi cau erbyn hyn.

Mae llawer yn cael ei ddarlledu am hunanoldeb rhai pobl yn ystod y sefyllfa anodd bresennol hon ond ceir llawer iawn o garedigrwydd ac anhunanoldeb hefyd sy'n amlwg o'r llawer o bethau sy'n digwydd yn lleol a fydd yn helpu i wneud bywyd yn haws i'r rhai sydd wedi'u hynysu ac sy'n methu gadael eu cartrefi.

Cadwch yn ddiogel!

## Y BERMO A LLANABER



### Ysgol y Traeth

Disgyblion B5 Ysgol y Traeth a fynychodd uwchgynhadledd ar newid hinsawdd i blant ym Mangor yn ddiweddar.

### Cymdeithas Gymraeg y Bermo

Mwynhawyd Cinio Gŵyl Ddewi yn Hendrecoed Isaf ar ddechrau mis Mawrth yng nghwmni Mair Tomos Ifans. Diolch i Kevin a'r gweithwyr am y bwyd blasus a'r gwasanaeth croesawgar. Diolch hefyd i Mair am noson gartrefol a hwyliog yn ei chwmmi. Bu raid inni ohirio ein Cyfarfod Blynyddol ar y 18fed a gweld lluniau John a Jean Roberts yn India. Cawn fwynhau'r orig yn ein tymor newydd yn 2020-21 gobeithio.

Llawer iawn o ddiolch i bawb am eu cefnogaeth drwy'r flwyddyn.




### Diolch am wasanaethu

Pob dymuniad da i David Jones a'i staff yn y siop gig sydd wedi rhoi'r gorau i fasnachu yn ddiweddar. Roedd yn siop boblogaidd iawn gyda'r bobl leol ac ymwelwyr ac yn gwerthu cig o safon uchel. Bydd chwith ar ôl y siop yn y dref.

# TRYCHINEB YN NEBRASKA

Yn fore dydd Sadwrn, 2 Mehefin 1883, sylwyd fod yr afon yn Cedar Creek, ger Oakdale, Sir Antelope, Nebraska, ardal amaethyddol, yn codi'n gyflym, gan beryglu bywydau yr anifeiliaid yn y 'corral' yn ymyl y bont. Prysurodd rhai i hysbysu'r ffermwr Matherson ac Evans fod eu moch mewn perygl, a brysiodd William J Evans ac eraill i'r fan i geisio eu hachub. Erbyn hynny yr oedd y llifeiriant yn ei rym a'r moch yn y 'corral'. Aeth William ac un arall ar gefn eu ceffylau a thorrwyd rhan o'r clawdd i lawr a llwyddont i gael nifer o'r anifeiliaid i fyny i'r bont i ddiogelwch; yna cyfeirasant am y lan. Yn anffodus, aeth y ceffyl a farchogai William yn afreolus, fel y daliwyd hwy mewn trobwll, ac fe syrthiodd y ceffyl oddi tano. Rhywfodd neu'i gilydd colodd ei afael ar y ceffyl, a gwaeddodd ar y rhai oedd ar y lan i ddweud na allai nofio. "Boys", meddai, "I can't swim"; daeth i fyny unwaith ond suddodd drachefn ac ni welwyd mohono wedyn. Gwnaed ymdrechion dewr gan ddau edrychwyr i nofio at y fan y suddodd i geisio ei achub; ond yr oedd y llifeiriant yn rhy gryf fel y bu yn rhaid iddynt roi'r gorau iddi, a'i adael i foddio o flaen eu llygaid, heb fedru ymestyn unrhyw gymorth iddo.

Daethpwyd â'i weddillion adref i dŷ ei dad yn Racine, Wisconsin, ar ôl dyfod o hyd i'w gorff yn agos i'r fan y syrthiodd, wedi glynu yn ngheulan yr afon, tua naw o'r gloch y noson y boddodd. Doedd yna ond wythnos ers pan oedd wedi dychwelyd i Nebraska ar ôl bod yn ymweld â'i ardal enedigol yn Racine, Wisconsin, lle y'i ganwyd yn 1856. Cyrhaeddodd Nebraska yn 1877 pan oedd yn 21 oed, gyda'r bwriad o sefydlu yno, os gwelai fan a hoffai. Ymhen amser cyrhaeddodd Stanton, Nebraska, a daeth i gysylltiad â brawd ifanc o'r enw Kenneth Materson (g 1853). Penderfynodd y ddau brynu tir a'i rannu, ac anfonodd ei dad arian iddo i ddechrau'r fenter. Buont yn rhedeg y fferm am tua dwy flynedd, ac yn cadw tŷ eu hunain. Yn ddiweddarach buont yn rhedeg masnach yn Stanton,



**Golwg o Oakdale oddeutu 1882 yn dangos y Coleg Diwinyddol a'r Ysgol (atgynhyrchir o gyfresi o gardiau post ym mherchnogaeth Helen McNare, Oakdale, Nebraska).**

sef prynu a gwerthu anifeiliaid, ayyb – William yn gofalu am y stoc a Kenneth y rhan arall o'r fasnach. Yn Hydref 1881, agoront ariandy yn Oakdale, a'r gwanwyn canlynol symudodd William yno, ac yno y cyfarfu â'i ddiwedd trallodus. Casglodd y ddau lawer o gyfoeth, ac yr oedd eu henwau yn sefyll yn uchel yn y byd masnachol yn y rhan ogleddol o dalaith Nebraska. Cyhoeddwyd geiriau tyner a theimladwy amdano ym mhapurau Nebraska a Racine.

Yr oedd Elizabeth, ei fam, wedi ei geni yn Ymwlch, Llandanwg, ger Harlech. Mab Llanddwywe oedd ei thad, a merch Llanfeddigaid oedd ei mam, y naill a'r llall yn perthyn i'r teuluoedd mwyaf adnabyddus a pharchus yn yr ardaloedd hynny. Bu ei thad farw yn ŵr ifanc. Ymfudodd William Jones, ei hunig frawd, i ddinas Efrog Newydd yn 1841, lle bu'n cadw Gwesty y Carnarvon Castle: a'i chwaer, Sarah (Mrs James Lewis), Efrog Newydd, yn yr un flwyddyn. Tua 1844, cyrhaeddodd Elizabeth hefyd yr America, a bu hithau yn cartrefu yn ninas Efrog Newydd am gyfnod byr. Symudodd i Racine, Wisconsin, yn 1846, ac yn fuan priododd â Hugh Pugh, mab Arthur Pugh. Ganwyd iddynt ddau o blant, sef Hugh, a oedd yn byw yn Nevada, ac Elizabeth, priod Hugh Williams, yn Chicago. Yn 1850, pan oedd y dwymyn aur yn ei hanterth, aeth Hugh

Pugh yng nghwmni eraill i California. Ar ôl bod yno rhai blynyddoedd, colodd ei iechyd, a dychwelodd at ei deulu, ond bu farw yn fuan wedyn. Ar ôl hynny priododd Elizabeth am yr ail waith gydag Owen J Evans (m 1912?). Cafodd Elizabeth sawl profedigaeth chwerw. Bu merch fach ddwyflwydd oed farw. Yna William yn boddi yn Nebraska. Merch arall, Mary, a fu farw yn 1894, ar adeg pan y bu bron y teulu i gyd yn wael. Ac yna Sarah, merch arall, a fu farw yn 1897, yn 37 oed. Bu Elizabeth ei hun yn dioddef o'r crydcymalau am ugain mlynedd

olaf ei bywyd, ac yr oedd ei golwg i raddau helaeth wedi pallu. Yr oedd Owen J Evans, ei phriod, wedi mynd i dalaith Mississippi i arolygu planhigfa oedd ganddo yno pan fu farw Elizabeth, 13 Mai 1897, yn 75 mlwydd oed. Claddwyd hi ym mynwent Mound, Racine, Wisconsin. Gwasaaethwyd yn ei hangladd gan y Parchedig Robert Thomas Roberts (1852-1927), mab i'r Parchedig Thomas H Roberts (1825-1880), Proscairon, Wisconsin, gynt o Landdeiniolen, Arfon.  
**W Arvon Roberts, Pwllheli**

## CYFREITHWYR BREESE GWYNDAF



### MEWN STRACH? MAWR NEU FACH? CYSYLLTWCH Â NI

Trawsgludo Tai a Busnesau · Ewyllysiau · Profiant  
Hawliad Iawndal · Niwed Personol · Materion Sifil  
Ysgariad a Theulu · Cyfraith Amaethyddol · Troseddau di-annod

Apwyntiadau ar gael yn eich cartref, gyda'r hwyr  
neu ar y penwythnos drwy drefniant



**PORTHMADOG**  
01766 512214/512253  
60 Stryd Fawr

**PWLLHELI**  
01758 612362  
Adeiladau Madoc  
**office@bg-law.co.uk**

**ABERMAW**  
01341 280317  
Stryd Fawr

# CWIS BANDIAU

## AELODAU

Iwan Hughes  
Dafydd Hughes  
Aled Hughes

## PROC I'R COF



Arfon Wyn  
Einion Williams  
Richard Synnott  
ac eraill



Emma Walford  
Non Williams  
Rachel Solomon



Martin Beattie  
Alwyn Jones  
Siôn Jones  
Huw Smith  
Siôn Bayley



Cleif Harpwood  
Hefin Elis  
Dewi 'Pws' Morris  
John Griffiths  
Charli Britton




## AELODAU

Ifan Davies  
Gerwyn Murray  
Ifan Ywain  
Lewis Williams  
Gruffudd Jones

## PROC I'R COF



Yws Gwynedd  
Owain Jones  
Jason Hughes



Ifan Jones  
Gruffydd Edwards  
Tomos Edwards  
Lewis Williams



Emyr Wyn  
Robin Evans  
Mei Jones  
Graham Pritchard  
Iwan Roberts  
Dewi Jones



Emyr Huws Jones  
Dewi Morris  
Alun Sbardun Huws  
Stan Morgan-Jones



Atebion: Cowbois Rhos Botwnnog, Moniars, Eden, Celt, Edward H Dafis  
Swanari, Ffrisbec, Candelas, Mynnediad am Ddim, Y Tebot Pws

Beth ydy enw dyn llefrith  
gwaethaf yr Eidal?

Mario Torriboteli

[Rhaid bod hon yn hen jôc  
oherwydd y mae dyn llefrith yn  
greadur prin iawn erbyn hyn!]

\*\*\*

Beth wyt ti'n galw dyn o Israel  
sydd heb ffrindiau?

Ari Ben-Ehin.

\*\*\*

Pa greadur sy'n hoffi cystadlu yn  
yr Elf-steddfod?

Y côr-ach.

\*\*\*

Pam nad ydi Santa yn hoffi  
mynd i lawr y simne?

Mae'n dioddef o Clos-troffobia!

\*\*\*

Mae dyn yn cerdded i mewn i  
siop ac yn gofyn, "Ga i baced o  
fisgedi os gwelwch yn dda?"  
Ac mae dyn y siop yn ei ateb,  
"Dim ond Ryvita sydd gynno ni,  
sori."

"Mae'n iawn, rhai i fyta dwi  
ishio."

\*\*\*

Criw o blant yn gwrando ar CD  
newydd Justin Timberlake, yn  
trafod pa mor ffantastic ydi o.  
Ac mi ddaru un ohonyn nhw  
ddweud: "Mae'n dda, ond mae'n  
well gen ei Dido."

Mi glywodd nain un o'r plant  
hyn, a dyma hi'n deud -  
"Ew do'n i'm yn gwybod fod ei  
daid o'n canu hefyd!"

\*\*\*

## JÔCS

Roedd 'na ddyn o Ardudwy yn magu cŵn ac roedd ganddo un  
ci arbennig oedd yn gallu arogl unrhyw beth o bellter o tua tair  
milltir. Mi benderfynodd mynd â fo at adran y *customs* ym maes  
awyr Manceinion. Aeth at y prif swyddog yn fannu a dweud, 'Mae  
gen i gi all arogl unrhyw beth ac mi fase'n gwneud ci da ichi yn y  
maes awyr. Mae o ar werth am £2000.

'Iawn,' meddai'r prif swyddog ond mae'n rhaid imi ei weld o'n  
gweithio gyntaf. Dyma ollwng y ci yn rhydd ac wedi iddo grwydro  
rhyw ychydig rhoddodd y ci ei bawen ar gês a chyfarth.

'Beth sy'n digwydd?'

'Mae o wedi arogl sigarets.'

A dyma agor y cês a beth oedd yno ond pum paced o sigarets.

'Da iawn, ond dwi eisiau gweld mwy,' meddai'r prif swyddog.

Dyma'r ci yn rhedeg o gwmpas eto ac yn rhoi ei bawen ar ges arall.

'Beth sy'n bod rwan?'

'Mi wranta i fod cyffuriau yn y cês 'na.' Ac mi oedd yna rai yn y cês.

'Gwych,' meddai'r prif swyddog, 'Mi drefna i daliad ichi ar unwaith.'

A dyma fo'n cyflwyno siec am £2000 i'r dyn o Ardudwy.

Fel yr oedd o'n gwneud hynny, dyma'r ci yn symud eto a rhoi ei  
ddwy bawen ar gês a chyfarth yn uchel, gwneud ei fusnes ar y llawr  
a rhedeg nerth ei draed allan o'r maes awyr.

'Be' mae o'n ei wneud? Dwi wedi talu dwy fil o bunnau am y  
mwngral yna! Mi fydd raid imi ffonio am y glanhawyr i ddod i lawr  
i lanhau ar ei ôl o.'

'Iawn, ffonia di pwy bynnag wyt ti eisiau, a gwna beth bynnag a  
fynni di,' meddai'r dyn o Ardudwy, 'ond dwi'n mynd - mae'r ci wedi  
arogli bom!'

\*\*\*

Mae gan Eirwyn George, y prifardd coronog o Faenclochog yn  
sir Benfro, stori dda amdano'n cystadlu yn Eisteddfod Bancyfelin.  
Penderfynodd ddefnyddio'r ffugenw 'Cassius Clay' am fod y dyn  
hwnnw yn arwr iddo. T Llew Jones oedd yn beirniadau a rhoddodd  
y wobr gyntaf i Eirwyn gan ddweud mai ffugenw digon sâl oedd  
ganddo. Ymhen wythnos, roedd llun o Eirwyn yn y *Carmarthen  
Journal* yn sefyll yn dalog o dan y cleddyf mawr ar y llwyfan ac oddi  
tano yr is-deitl '*Cassius Clay wins chair at Bancyfelin Eisteddfod!*'

Mae moesau yn newid wrth  
i rhywun fynd o'r dwyrain i'r  
gorllewin yng Nghymru.  
Er enghraifft, yng Nghaerdydd  
pan fyddan nhw'n rhoi cwpaned  
o de i chi maen nhw'n dweud,  
"Dyma bot o siwgr."

Yng Nghaerfyrddin, bydd y  
person yn holi, "Un lwmpyn neu  
ddau?"

Yng ngwlad y Cardi, os byddwch  
yn holi am y pot siwgr mi fyddan  
nhw'n dweud, "Ydych chi'n siwr  
eich bod chi wedi troi'ch te?"

\*\*\*

Aeth dyn i mewn i awyren  
ac eistedd wrth ymyl gwraig  
brydferth iawn. Ymhen sbel mi  
ddwedodd y wraig, "Mae rhai  
gwragedd yn hoff o bob math o  
dynion, ond dim ond dau fath  
o ddyn sy'n fy niddori i; y rhai  
sydd â'u gwreiddiau ymhlith yr  
Indiaid Cochion a'r rhai sy'n dod  
o Gymru."

Nid oedd y dyn yn gwybod beth  
i'w ddweud fel ateb. Felly aeth y  
sgwrs ymlaen am bynciau eraill.  
Wedyn, dywedodd y wraig, "Wel,  
dydw i ddim wedi cyflwyno fy  
hunan. Elinor Westin ydw i."  
"O wel!" meddai'r dyn, "Hiawatha  
Llywelyn Jones ydw i!"

\*\*\*

Sut ma gwneud rhywun o'r cyn-  
Yugoslavia chwerthin?

Cosa fo!

[Hon hefyd yn amlwg yn hen  
jôc!]

# TALSARNAU, YNYS A LLANDECWYN



**Merched y Wawr Talsarnau yn dathlu  
Gŵyl Ddewi yng Ngwesty Seren**

Trefnwyd i gael cinio Gŵyl Ddewi yng Ngwesty Seren, Llan Ffestiniog prynhawn dydd Gwener, 6 Mawrth, ac ar fore braf cyrhaeddodd 14 o aelodau Cangen Talsarnau y gwesty erbyn hanner dydd a chyfarfod yn gyntaf mewn ystafell gyfforddus yno. Gan nad oeddem i fod i gael ein cinio tan 12.30, rhoddodd hyn amser i'n Llywydd, Siriol, gyflwyno rhai materion i sylw pawb a dechreuodd drwy gyflwyno'r wybodaeth am enwebu Swyddogion Cenedlaethol.

Wedi clywed am gefndir y ddwy a gynigiwyd, cytunwyd i gadarnhau enwebiad y swyddogion cenedlaethol canlynol: Is-lywydd Cenedlaethol, Geunor Roberts, Llanymawddwy Is-ysgrifennydd Cenedlaethol, Myfanwy Harper, Llandygai. Yna daeth yr amser i ni fynd i'r ystafell fwyta ac yno cawsom wledd arbennig gyda digon o fwyd blasus o'n blaenau a phawb yn edrych ymlaen at fwynhau'r arlwy'n fawr iawn. Roedd cymaint ar y desglau fel y bo rhai wedi cael tamaid i fynd adra efo nhw!! Diolchwyd i staff y Gwesty am baratoi cinio mor ardderchog ar ein cyfer, a diolchwyd hefyd i'r bobl ifanc oedd yn gweini arnom.

Wrth gael y baned ar y diwedd, darllenwyd cofnodion dau achlysur diweddar – sef ein hymweliad â Changen Harlech ar 4 Chwefror a'r noson Bowllo Deg ar 28 Chwefror. Tynnwyd y raffl ac roedd gwobr fach i bawb. Bu'n ddathliad braf iawn o Wyl ein nawddsant a mwynhawyd y cinio a'r sgwrsio mewn awyrgylch hyfryd.

## Er cof

Bu farw Gwyndaf Williams yn dawel yn Ysbyty Gyffredinol Southport ar yr 8fed o Fawrth. Roedd yn briod â June, yn dad i Julie a Peter, Michael a Julie, taid arbennig i 9 o wyrion a wyresau a hen daid balch i dri. Mab ydoedd i'r diweddar John a Lena Williams, Cefn Gwyn, brawd i Ieuan, Deilwen, Heulwen, Bryn a'r diweddar Gareth.

Peiriannydd electronig gyda MANWEB oedd wrth ei alwedigaeth. Ar ôl gadael y Coleg cafodd waith ym Machynlleth ac Aberystwyth cyn symud i Lerpwl fel pennaeth ardal, ac yno y bu'n gweithio am ddeugain mlynedd heb gollu un diwrnod o waith. Cafodd ei anrhegu am ei deyrngarwch. Mwynhaodd bob eiliad o'i fywyd ymhlith 'pobol Lerpwl' ac i goroni'r cyfan cafodd wahoddiad i fod yn aelod o Gôr Meibion Aughton. Roedd wrth ei fodd yn y Côr, gan mai ei ddiddordeb pennaf oedd canu. Bu unwaith yn ceisio dysgu'r Côr i ganu 'Mi glywaf dyner lais' ond roedd ganddo un gair amdanynt - 'anobeithiol'. Roedd y cymdeithasu a'r tynnu coes yng nghwmni'r bechgyn wrth fodd ei galon.

Roedd yn derbyn Llais Ardudwy yn fisol ac yn edrych ymlaen bob mis i ddarllen newyddion Ardudwy ac, wrth gwrs, hanes Talsarnau, ei fro enedigol. Bu'r angladd yn Amlogfa 'West Lancashire' gyda'r Gwasanaeth yng ngofal y Parch Ddr D Ben Rees. Rhoddodd deyrnged arbennig o deimladwy a chydymdeimlodd yn ddwys a'r teulu oll yn eu profedigaeth, a mawr ein diolch iddo.

Rhodd £10

## Capel Newydd

Er na fyddwn yn cyfarfod yn y capel mae yna wasanaeth byr ar lein am 6:00 bob nos Sul. Ewch i capelnewydd.org. Croeso i chi gysylltu hefo Dewi Tudur am fwy o fanylion neu os oes angen help mewn unrhyw ffordd arnoch. 01766 770953.

## Cefnogaeth adeg feirws y goron

Mae criw ohonom wedi dod at ein gilydd i estyn cefnogaeth a help i bobl fregus. Dosbarthwyd taflen gwybodaeth yn Llandecwyn, Talsarnau, Glan-y-wern a'r Ynys. Rhif ffôn Siriol Lewis 01766 770953 neu 07792 506697. Croeso i unrhyw un gysylltu am help. Diolch yn fawr i bawb - ifanc a ddim mor ifanc! - sydd wedi cefnogi y Grŵp Cymunedol hwn.

## Y Lasynys Fawr

Oherwydd yr argyfwng presennol, ni fydd Y Lasynys Fawr yn agor fel arfer dros y Pasg, ac mae Darlith Flynyddol Cyfeillion Ellis Wynne wedi ei gohirio nes bydd newid yn y sefyllfa.

## PŌS

Mae tri o'r rhifau yn y blwch yn adio i 59. Pa rai ydyn nhw?

39	20	35
29	28	14
23	38	19
30	18	22

**DIONI**

Cysylltwch â Dioni i siarad am eich bwthyn gwylia  
Gwion Llwyd 01341 247 200 gwion@dioni.co.uk  
**BUSNES LLEOL...CWSMERIAID BYD EANG**

**R J Williams Honda  
Garej Talsarnau  
Ffôn: 01766 770286**



# R J WILLIAMS IZUZU

## Talsarnau 01766 770286

### TRYCIAU IZUZU



## CYNGOR CYMUNED HARLECH

### MATERION YN CODI

#### Toileddau ger y Castell

Mae Mr Lee Warwick wedi gorffen y gwaith o lanhau a pheintio y tu mewn i'r toileddau uchod a bod angen rŵan cael archebu deunydd glanhau. Hefyd roedd Mr Warwick wedi arwyddo'r Cytundeb rhyngddo ef ar Cyngor ynglŷn ag edrych ar ôl y toileddau hyn. Mae Cameron May wedi cwblhau archwiliad o'r gwaith plymio a'i fod wedi trwsio beth oedd ei angen. Hefyd cafwyd gwybod bod Dave Ellis wrthi'n cynnal archwiliad o'r gwaith trydanol. Mae problem wedi codi gyda'r sychwr dwylo.

#### Agor Tendrau Torri Gwair

Dim ond un tendr yr oedd wedi ei dderbyn a hynny gan Mr Meirion Griffiths, Islwyn, Talsarnau i dorri gwair y llwybrau cyhoeddus ac un i dorri gwair y fynwent gyhoeddus. Cytunwyd i dderbyn y tendr hon. Hefyd penderfynwyd derbyn Mr Gareth John Williams i dorri gwair cae chwarae Brenin Siôr V a'r cae pêl-droed eto eleni.

#### Seddi Cyhoeddus

Mae prinder seddi cyhoeddus o gwmpas yr ardal. Cytunwyd i archebu tair sedd i'w gosod ar Pen y Graig, Twtil a ger Pant Mawr. Mae'r Pwyllgor Twristiaeth yn bwriadu archebu seddi i'w gosod ar Penllech ond eu bod eisiau cyfarfod ag aelod o'r Cyngor er mwyn cytuno ar leoliad a chytunodd y Cadeirydd i'w cyfarfod.

#### Gwefan y Cyngor

Datganwyd pryder gan yr aelodau nad oedd y wefan yn gweithio'n iawn nac yn ateb y gofynion oherwydd erbyn hyn mae hi yn gyfraith bod rhaid i Gyngor Cymuned a Thref gael gwefan. Hefyd, datganodd y Clerc bryder y bydd yr Archwilwyr eto eleni yn gweld bai oherwydd nad oes gan y Cyngor wefan digon da. Cytunodd y Cadeirydd gysylltu gyda Mr Owen Brown i drafod y mater hwn ymhellach.

#### CEISIADAU CYNLLUNIO

Diddymu Cytundeb Adran 106 dyddiedig 27/06/2005 mewn perthynas â Chaniatâd Cynllunio Cae Gwastad, Harlech. Dim sylwadau ar y cais hwn.

#### ADRODDIAD Y TRYSORYDD

##### Ceisiadau am gymorth ariannol

Yr Hen Lyfrgell - £500, Neuadd Goffa - £500, Ambiwllans Awyr Cymru - £500. CFfi Meirionnydd - Dim

#### UNRHYW FATER ARALL

Mae Mr Meirion Evans yn mynd i gychwyn ar y gwaith o godi wal yn y fynwent wythnos nesaf a hefyd bod y teuluoedd hefo beddau gerllaw wedi cael gwybod am hyn.

Nid yw tenantiaid y tai i lawr Ffordd y Nant wedi cael symud i mewn er bod hyn i fod i ddigwydd dros flwyddyn yn ôl.

pob tudalen yn llawn bywyd ac yn sicr o dynnu sylw, ac mae'r clawr trawiadol yn rhoi awgrym o'r amrywiaeth a'r cyffro rhwng y cloriau.

Mae'r tudalennau blaen a chefn yn cynnwys llu o enwau merched ifanc Cymru – y genhedlaeth newydd o genod gwych a merched medrus – ac rwy'n edrych ymlaen yn barod i ddarllen eu hanesion nhw'n fuan, gan obeithio y bydd y llyfr hwn yn tanio a'u hysbrydoli. Mae'r gyfrol yn anrheg berffaith i blentyn ifanc, ac mae'n siŵr o fod yn ffefryn fydd yn cael ei dynnu o'r silff yn gyson.

#### Llio Maddocks

Adolygiad oddi ar [www.gwales.com](http://www.gwales.com), trwy ganiatâd Cyngor Llyfrau Cymru.


## YR WYTHNOS FAWR ADRA

Mae amser yn hedfan a'r Pasg bron yma. Er na fyddwn ni'n dathlu gwasanaethau'r Wythnos Fawr yn yr eglwysi eleni, rydyn ni'n gallu cysylltu a'n gilydd drwy ryfeddodau'r rhyngwyrdd. Caiff y gwasanaethau eu ffrydio o'n cartref ni a byddan nhw yn y Gymraeg, Iaith Arwyddion a Saesneg. Bydd y rhain ar gael rŵan ar dudalen Facebook Bro Ardudwy ac ar ein gwefan <https://broardudwy.church/> Cofiwch ymuno os allwch chi. Mae Bywyd Bro yr wythnos hon a hefyd Llyfryn Wythnos Fawr Gartref ar gael ar ffurf pdf i'ch helpu chi i weddio drwy'r tymor pwysig hwn, neu fel dogfennau Word. Gyda fy holl weddiâu ar yr amser anodd hwn, Pob bendith Tad Tony

## PLAID CYMRU

Dathlu Gŵyl Ddewi a dathlu bod Liz Saville Roberts AS wedi llwyddo i gadw ei sedd yn etholiad mis Rhagfyr 2019 oedd yr achlysur nos Sadwrn, 29 Chwefror yng Nghlwb Golff Porthmadog. Cyfunwyd y ddau ddathliad trwy drefniant Pwyllgor Etholaeth Dwyfor Meirionnydd a Changen Deudraeth. Yn y Clwb Golff yr oedd nifer fawr o aelodau'r Blaid o'r etholaeth yng nghwmni Liz Saville Roberts, Mabon ap Gwynfor a Pharti Hogiau'r Bonc, Bethesda. Rhwng anerchiadau brwd a diffuant Liz Saville a Mabon, canu soniarus, gwerinol a chyfoethog Hogiau'r Bonc, bwyd blasus y Clwb Golff a sgwrsio difyr o gwmpas y byrddau, cafwyd noson i'w chofio. Llywyddwyd gan Gareth Thomas.

## MERCHED MEDRUS



cawn hanes pob unigolyn, yn ogystal â dyfyniadau, ffeithiau ac ystadegau hwyliog. Mae'r straeon ysgafn yn cyflwyno sut wnaeth pob un ohonynt lwyddo i gyrraedd y brig, ac mae'r wybodaeth wedi ei chyflwyno mewn ffordd apelgar tu hwnt, gyda nifer o ffeithiau hurt bost sy'n mynd i aros yng nghof y darlennydd.

Ar ddiwedd y llyfr, mae nifer o dasgau i annog y darllenwyr i ddatrys posau, bod yn greadigol a gosod heriau i'w hunain er mwyn iddyn nhw wireddu eu breuddwydion hefyd. Mae dwy dudalen yn arbennig i nodi sut rwyd ti am newid y byd yn y dyfodol – ffordd hyfryd i drafod amcanion a gobeithion gyda darllenwyr ifanc.

Rhaid canmol y darlunydd Telor Gwyn am y lluniau sy'n dod â'r hanesion yn fyw, a'r dylunydd Dyfan Williams am y dyluniad bywiog a lliwgar. Mae

Dyma lyfr fydd at ddant pob merch fach gyda breuddwydion mawr!

Casgliad o 12 o ferched o Gymru sydd yma, gan gynnwys Betsi Cadwaladr, Laura Ashley a Jade Jones, ac mae'r awdur wedi mynd ati i wneud yn siŵr bod rhywbeth yma at ddant pawb, boed hynny'n fathemateg, chwaraeon, ysgrifennu neu hyd yn oed astroffiseg! Ar dudalen ddwbl

# HYSBYSEBION

Telerau gan Ann Lewis 01341 241297

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol  
gan Lywodraeth Cymru

CYMRAEG

**ALAN RAYNER**

07776 181959

**ARCHEBU A GOSOD  
CARPEDI**



Sŵn y Gwynt, Talsarnau  
[www.raynercarpets.co.uk](http://www.raynercarpets.co.uk)

**ALUN WILLIAMS**

**TRYDANWR**



\* Cartrefi  
\* Masnachol  
\* Diwydiannol  
**Archwilio a Phrofi**

**Ffôn: 07534 178831**  
e-bost:alunllyr@hotmail.com

**Tafarn yr Eryrod**

Llanuwchllyn

01678 540278



Bwyd cartref blasus  
Cinio Dydd Sul  
Dathliadau Arbennig  
Croeso i Deuluoedd

**JASON CLARKE**

Maesdre, 20 Stryd Fawr  
Penrhyndeudraeth  
LL48 6BN



Arbenigwr mewn  
gwerthu a thrwsio  
peiriannau sychu dillad,  
golchi dillad a golchi llestri.



**GERAINT WILLIAMS**

Gwrachynys, Talsarnau

**ADEILADWR**

Gwarantir gwaith o safon  
Ffôn: 01766 780742 / 07769 713014

**GWION ROBERTS, SAER COED**

01766 771704 / 07912 065803



[gwionroberts@yahoo.co.uk](mailto:gwionroberts@yahoo.co.uk)  
dros 25 mlynedd o brofiad

**MELIN LIFIO SYMUDOL**

Gadewch i'r felin ddod atoch chi!  
Y cyntaf i'r felin gaiff lifio!  
[www.gwyneddmobilemilling.com](http://www.gwyneddmobilemilling.com)



**GERAINT  
WILLIAMS**

Gwrachynys,  
Talsarnau

01766 780742  
07769 713014

**\$ammie  
Solutions**

Gwasanaethau Cadw Llyfrau

SAGE  
Cyfrifon  
Paratol Cyflogau  
TAW  
Hunanesiad  
a mwy

**Sammie Cooper BA**

Lefel 4 Diploma Mewn Cyfrifeg,  
Trethiant a Moeseg - AAT

Harlech - Gwynedd  
07786554884

[sammiesolutions@outlook.com](mailto:sammiesolutions@outlook.com)

**CAE DU DESIGNS**

DEFNYDDIAU DISGOWNT

GAN GYNLLUNWYR

Stryd Fawr, Harlech

Gwynedd LL46 2TT

01766 780239

e-bost: [sales@caedudesigns.co.uk](mailto:sales@caedudesigns.co.uk)

Dilynwch ni:



**Oriau agor:**

**Llun - Sadwrn**

**10.00 tan 4.00**

**GWASANAETH CADW CYFRIFON**

**ARDUDWY**

Cysylltwch â ni am y gwasanaethau isod:

- Cadw llyfrau
- Ffurflenni TAW
- Cyflogau
- Cyfrifon blynyddol
- Treth bersonol



[info@ardudwyaccounting.co.uk](mailto:info@ardudwyaccounting.co.uk)

07930 748930

**E B RICHARDS**

Ffynnon Mair

Llanbedr

01341 241551

**CYNNAL EIDDO**

**O BOB MATH**

*Toi gyda llechi,  
gosod brics, plastro,  
teilsio lloriau a waliau,  
gwaith coed ayyb.*

**Llais  
Ardudwy**

Drwy'r post

Iolyn Jones 01341 241391

Tyddyn Llidiart, Llanbedr

[iolynjones@outlook.com](mailto:iolynjones@outlook.com)

E-gopi

[pmostert56@gmail.com](mailto:pmostert56@gmail.com)

£7.70 y flwyddyn am 11 copi

**argraffu da  
am bris da**



**y Lolfa**

holwch Paul am bris ar [paul@yloffa.com](mailto:paul@yloffa.com)  
01970 832 304 [www.yloffa.com](http://www.yloffa.com)

*Pritchard &  
Griffiths Cylf.*

Tremadog, Gwynedd LL49 9RH

[www.pritchardgriffiths.co.uk](http://www.pritchardgriffiths.co.uk)

01766 512091 / 512998

**TREFNWYR**

**ANGLADDAU**

Gwasanaeth personol dydd a nos

Capel Gorrffwys

Ceir angladdau


Gellir trefnu blodau a chofeb

# GŴYL CROESOR/ LLANFROTHEN

Yn ddiweddar, cynhaliwyd wythnos o weithgareddau yn ardal Croesor a Llanfrothen, ac yn eu mysg cynhaliwyd noson hynod o ddifyr yng Nghaffi Croesor gyda Rhys Mwyn yn holi Gwenan Gibbard am ei llyfr 'Merched y Chwyldro', sef hanes merched pop Cymru'r 60au a'r 70au. Soniwyd am ddylanwad sawl unigolyn a grŵp o'r cyfnod, yn cynnwys y Pelydrau,



grŵp a gododd yn naturiol o draddodiadau cefn gwlad Sir Feirionnydd, criw o bedair merch ac un bachgen. Bob yn ail â'r sgwrsio, cawsom glywed ambell i gân o'r cyfnod. Daeth y grŵp yma ynghyd, y pump o Drawsffynydd, ar gyfer cystadlu yn Eisteddfod y Ffermwyr Ifanc yn Nolgellau yn 1966, a buan iawn y tyfodd eu poblogrwydd ledled Cymru.



Un arall y soniodd Gwenan Gibbard amdani oedd Gwenann o Ddyffryn Ardudwy.



Recordiodd Gwenann gyda chwmmi Dryw yn 1971. Canu cerdd dant oedd ei chefnidir cerddorol gyda Pharti Ardudwy dan arweiniad O T Morris o'r Dyffryn, a bu hefyd yn canu deuawdau gyda'i ffrind o'r pentref, Jean Roberts. Wedyn, dechreuodd edrych ar *Top of the Pops*, prynu gitâr a cheisio sylwi lle roedd y sêr pop yn rhoi eu bysedd, ac yn y man roedd yn perfformio i'w chyfeiliant ei hun ar yr offeryn ac yn diddanu cynulleidfaoedd gyda chaneuon bywiog fel 'O Hyfryd Wlad Pen Llŷn'. Bu'n mynd o amgylch Cymru a Lloegr gan ganu mewn llefydd fel Blackpool a Leamington Spa, a chafodd dymor yn canu yn *Dixieland Show Bar*, Bae Colwyn.

Os am wybod mwy am y merched arloesol yma ym myd pop y 60au a'r 70au, enw'r gyfrol ydy 'Merched y Chwyldro', awdur Gwenan Gibbard, ISBN 978-1-910594-73-5, £15.99, yn cynnwys dwy CD sy'n hawdd iawn gwrandao arny'n nhw ac yn dod ag atgofion lu'n ôl os ydych yn cofio'r cyfnod hwnnw. Diolch i Gwenan Gibbard am gael dyfynnu o'i llyfr ac am ei chaniatâd i ddefnyddio'r llun o Gwenann o'r llyfr.

# HER AMGUEDDFA GETTY, CALIFFORNIA



Mae'r stori isod yn codi'n uniongyrchol o gyfyngiadau feirws y galon a'r galw sydd arnom i gyd i hunan-ynysu.



Mae amgueddfa Getty yng Nghaliffornia yn herio pobl i ailgreu darluniau enwog gan ddefnyddio eitemau cyffredin a phobl yn y cartref. Ar ei gyfrif Facebook y mae Darren Williams, 13 Pant yr Eithin wedi herio ei gyfeillion i ymateb. Dyma ddehongliad Donna, partner Darren, o lun enwog Curnow Vosper - 'Salem'. Rhaid iddi wyllo rhag ofn i bobl ei galw yn Donna Ty'n y Fawng o hyn ymlaen! Os cawn ni ragor o luniau da fe gyhoeddwn ni nhw ym mis Mai. Diolch i Darren a Donna am eu parodrwydd i rannu'r llun efo ni - mae angen pethau i wneud i ni wenu!


## ENGLYN DA

### DAUWYNEBOG

Clod ac anghlod yn gonglog, - a digon,  
O degwch celwyddog:  
Haws troi'r frân 'run gân a'r gog,  
Na 'nabod dauwynebog.


Siôn Tudur, c.1522-1602

**STORFA CANOLBARTH CYMRU**



**MID WALES STORAGE**


**Storfa Cartref a Busnes**




www.midwalesremovals.co.uk

Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion  
Monitro Diogelwch 24 Awr— Wedi ei wresogi

Siop Ar-Lein: www.boxshopsupplies.co.uk  
Bocsas a 'bubblewrap' ar lein



**Ffôn: 01654 703592**

**www.midwalesstorage.co.uk**

Heol Y Doll, Machynlleth, Powys, SY20 8BQ

INVESTORS | BUDDSODDWYR  
IN PEOPLE | MEWN POBL



# HARLECH

## RHEDEG 10K A MARATHON



Llwyddodd Llion Kerry, 11 Ffordd y Wylan Bach a'i gariad Lowri Roberts i gwblhau ras 10 cilometr yn Sir Fôn yn ddiweddar. Amser Llion oedd 57:24 munud ac amser Lowri oedd 1:04.37.



Llongyfarchiadau calonnog i Dev John, Damon John, a Carolyn Dalton [1:0:42] o Benarth [nith i Carol O'Neill, Tŷ Canol] sydd wedi cwblhau hanner marathon a ras 10km yn Sir Fôn yn ddiweddar. Hefyd yn rhedeg oedd Rob Lewis, Llandanwg [2:52:25] a'i gyfaill Jamie Atkinson, Penrhyndeudraeth [2:13:28].

Amser hanner marathon Damon oedd 1:41:35 [ond roedd y cwrs hanner filltir yn fwy na'r disgwyl gan fod coeden fawr wedi disgyn ar ran o'r cwrs y noson gynt. Amser Dev John am redeg 10km oedd 59:35 munud.

### Pwll nofio

Cynhaliwyd cinio ardderchog i ddathlu Dydd Gŵyl Ddewi yng Nghaffi Glyndŵr, Pwll Nofio Harlech, nos Sadwrn 29ain Chwefror. Ar y fwydlen roedd dewis rhwng cig eidion a chig oen gydag amrywiaeth o bwdin moethus i orffen.

Daeth nifer dda o gefnogwyr i'r dathliad ac mi gafwyd cwis diddorol i gloi dan arweiniad galluog Dylan Hughes.

Dymuna swyddogion y Pwll ddiolch o galon i'r gwirfoddolwyr am baratoi a gweini'r wledd ardderchog.

Cynhelir nosweithiau gwledda ar wahanol themâu yn rheolaidd, ac mae'r nesaf ar sail mynyddoedd y 'Pyrenees' - am fwy o fanylion ffoniwch 780576. Gwnaethpwyd elw o dros £300 ar y noson, oedd hefyd yn cynnwys raffl.

CR

### Diolch

Dymunwn ddiolch o galon am y galwadau ffôn a'r cardiau ac am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atom ar ôl colli ein brawd, Gwynne.

**Rhiannon a Jim**

**Rhodda a diolch £10**

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â Mrs Marian Jones a'r mab Glen, Crib-y-gwynt, Ffordd Uchaf yn eu profedigaeth o golli Dan. Hyderwn y gallwn gynnwys teyrnged lawn iddo yn ein rhifyn nesaf.

### Sefydliad y Merched

Croesawyd yr aelodau i gyfarfod y noson Gymreig gan y llywydd Jan Cole. Rhoddwyd croeso arbennig i aelodau o Penrhyn, Bermo a Llanfair i'r cyfarfod a rhwng pawb roedd dros 70 yn bresennol. Roedd y Neuadd yn edrych yn hardd iawn, y byrddau wedi eu haddurno hefo cennin Pedr a thair basged fawr o gennin Pedr ar y llwyfan.

Llongyfarchwyd Ann Edwards ar dderbyn medal gan Gymdeithas Arddio Meirionnydd mewn cyfarfod arbennig yn Ninas Mawddwy am ei gwasanaeth yn trefnu dwy sioe yn Harlech bob blwyddyn am 20 mlynedd.

Cyflwynodd y llywydd y côr cymunedol, 'Lleisiau'r Byd', yr adloniant am y noson. Cafwyd noson hwyliog iawn gyda'r gynulleidfa'n cymryd rhan yn y canu. Idris Lewis oedd yn cyfeilio i'r Côr.

Ar ran yr aelodau diolchwyd i'r Côr gan Ann Edwards. Ann oedd wedi cael hanes y Côr ac wedi gwneud y trefniadau i'w cael ar y noson.

Ar ôl yr adloniant cafwyd lluniaeth wedi ei baratoi gan aelodau Sefydliad y Merched, gyda bara brith, sgons a chacen gri.

Enillwyd y da da mewn potel, drwy geisio dyfalu sawl un oedd yn y botel, gan Sue Williamson.

Diolchwyd i Sefydliad y Mercher Harlech gan Lywydd y gwahanol ganghennau oedd yn bresennol.

Ers y noson yma mae cangen Sefydliad y Merched Harlech wedi gohirio pob dim tra bydd feirws y goron o gwmpas.

### Teulu'r Castell

Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod a gynhaliwyd yn Neuadd Goffa Llanfair, 10 Mawrth, gan y llywydd Edwina Evans.

Rhoddwyd croeso hefyd i Siân Roberts a braf iawn oedd gweld Eileen Lloyd yn ôl hefo ni ar ôl bod yn yr ysbyty.

Diolch i bawb oedd wedi rhoi rafflau ac i'r pwyllgor am drefnu'r te arbennig, sef te Cymreig.

Croesawyd Siân Roberts, sy'n gweithio efo Cadw ac wedi bod yn gweithio hefyd am flynyddoedd yng Ngholeg Harlech. Testun Siân oedd chwedlau Cymreig, a chafwyd amser difyr yn gwrandao ar y chwedlau yma. Diolchwyd i Siân ac i'r pwyllgor gan Edwina.

Yn anffodus ar ôl y cyfarfod yma cawsom glywed am yr haint feirws y goron ac mae'n rhaid gohirio pob dim am rai misoedd.

Diolch am eich cefnogaeth trwy'r flwyddyn. Byddwch yn ofalus ac edrychwn ymlaen i gael eich gweld eto.

### Merched y Wawr Harlech a Llanfair

Croesawodd Bronwen bawb i'r cyfarfod, yn aelodau, yn ddysgwyr a'r wraig wadd, Pam Cope.

Llongyfarchwyd Osian Ephraim ar ei lwyddiant yng Ngholeg Meirion/Dwyfor a Gethin Jones ar ei ymddangosiad ar y rhaglen 'Heno' yn sôn am y Prosiect Canfod y Gân. Dymunwyd yn dda i Geraint Lewis oedd wedi cael triniaeth sydyn yng Nglan Clwyd a hefyd Elfyn Anwyl a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Cafwyd nifer o ymddiheuriadau.

Pam Cope oedd yn gyfrifol am y noson a braf cael nodi bod 10 o ddysgwyr wedi troi i mewn atom. Roedd Pam wedi paratoi cwis ar ddjarhebbion lle roedd rhaid matsio cychwyn a diwedd dihareb - rhai yn peri trafferth i ni'r Cymry a rhai mwy amlwg a ddefnyddiwn bob dydd. Cafodd y dysgwyr gyfle i sgwrsio yn Gymraeg er mwyn

### 50 oed

Cofion gorau a phen-blwydd hapus iawn i Mrs Nicola Hughes, Cae Gwastad sydd wedi dathlu ei phen-blwydd yn 50 oed yn ddiweddar, gan y teulu, ffrindiau, ac aelodau o Cana-mi-gei. X

### 30 oed

Pen-blwydd hapus iawn i Damon John ar ei ben-blwydd yn 30 oed yn ddiweddar gan y teulu a'i holl ffrindiau.

Teyrnged i  
**ANN  
JAMES**  
gan ei mab,  
James Muir



Roedd fy mam, Ann, yn wraig gref ac annibynnol a oedd bob amser yn gwneud ei gorau, fel mam, fel matriarch, fel gwraig, fel partner, fel arweinydd, fel athrawes ac fel model rôl. Roedd hi'n garedig, hael, cryf, ffyddlon, gwydn, dyfeisgar, dewr, gwrthryfelgar, angerddol, pendant ac uchelgeisiol. Roedd ganddi farn bendant ar sawl mater - weithiau'n eithaf radical. Roedd yn arweinydd, yn berson gwych i'w chael ar eich ochr chi, yn ddiamynedd yn yr ystyr nad oedd hi byth yn simsan ei phenderfyniad, ac am bron y cyfan o'i hoes roedd hi'n egniol - gwnaeth lawer a chyflawnodd lawer iawn.

Magwyd fy mam i gredu y gallai gyflawni unrhyw beth, a dyna sut y bu iddi fyw ei bywyd. Dyna'r hyn y dysgodd i'w phlant ei gredu, a dyna beth yr ymladdodd drosto gydag angerdd tanbaid, gan hyrwyddo hawl merched a gwragedd i gael yr un cyfleoedd ac anelu at yr un nodau ag sydd gan fechgyn a dynion.

Fe'i ganed yn Poole, Dorset, ym 1937; yr unig blentyn i ddau riant bydol, blaengar, uchel eu cyflawniad ac uchelgeisiol a oedd yn ymroddedig iddi. Am ei thair blynedd gyntaf ar y ddaear hon roedd yn byw mewn

cwch hwylio 80 troedfedd wedi'i angori yn harbwr Poole. Dau ddylanwad yn ei blynedd oedd ysgol oedd cariad at geffylau a marchogaeth, angerdd a gafodd ragor o sylw wedi iddi ymddeol gydag Elfyn fel ymwelydd cyson â rasys Bangor-is-y-coed, gyda'i ffrind gorau, Madeleine, y mae eu perthynas agos a'u cyfeillgarwch cynnes wedi parhau am fwy na saith degawd.

Yn 18 oed, mynychodd y Coleg Normal ym Mangor lle hyfforddodd i fod yn athrawes a chyfarfu â ffrind gwych arall, Myfanwy, a arhosodd, fel Madeleine, yn agos iawn ati trwy gydol ei hoes.

Mae'n debyg mai hwn oedd yr unig dro i fy mam fethu â chyflawni'r hyn yr oedd hi'n bwriadu ei wneud oherwydd iddi gael ei hatal rhag dilyn ei chariad a'i hangerdd am actio gan dad gor-amddiffynnol a gredai fod angen iddi ddilyn gyrfa "fwy diogel" mewn addysgu. Ei gofid mawr oedd na wnaeth hi sefyll i fyw ato ar yr eiliad allweddol hon, ond mae'n debyg ei fod wedi creu gwreigionen o benderfyniad, ysfa a gwrthryfel na fu erioed i'w gadael trwy gydol ei hoes.

Ym Mangor, cyfarfu â fy nhad a oedd yn astudio peirianeg yn y brifysgol, ac arweiniodd rhamant corwynt iddynt briodi - yn 21 yn rhy ifanc i Taid - tad mam, cymaint fel nad aeth i'r briodas, ond buan y newidiodd ei feddwl a chael mab yr oedd yn ei garu'n fawr. Daeth y ddau yn athrawon a chychwyn i Lerpwl ym 1958 lle buont yn dysgu mewn ysgolion canol dinas yn agos at y dociau.

Yna symudon ni fel teulu i Harlech lle roedd fy nhad wedi'i benodi'n athro. Yno, fe dreulion ni blentynod rhyfeddol, yn byw yn Llys Bach. Lle delfrydol.

Yno roedd Mam yn aros yn amyneddgar am ei chyfle i ailgydio yn ei gyrfa addysgu. Dechreuodd y clwb ieuencid yn Harlech a flodeuodd yn un o'r goreuon o'i fath yn y wlad ac a enillodd glod o bob math ac a arweiniodd at gael

ei chydabod fel awdurdod yn y maes hwn. Gyda chymorth fy nhad, trefnodd deithiau bws blyneddol i Ffrainc, yr Almaen ac Awstria gan ddarparu atgofion bythgofiadwy i bobl ifanc Ardudwy, ac enillodd disgos rheolaidd clwb ieuencid Harlech enw da a ddenai bobl ifanc ar draws ardal eang o'r Bermo i Benrhyndeudraeth. Datblygodd ei harbenigedd mewn gwaith ieuencid trwy gyrsiau hyfforddi arbenigol a gwaith traethawd hir a arweiniodd yn y pen draw at ddod yn ddarlithydd blaenllaw ar ddatblygiad ieuencid yng ngogledd Cymru.

Bu'n athrawes yn Nhonfannau am gyfnod cyn ei phenodi ym 1974 fel athrawes Saesneg a drama yn Ysgol Uwchradd Tywyn. Arhosodd yr her ddyddiol o deithio o Harlech ynghyd â rhedeg y clwb ieuencid.

Dair blynedd yn ddiweddarach, bu farw fy nhad yn sydyn yn 39 oed. Daeth yn wraig weddw gyda mab a merch yn eu harddegau a thŷ anorffenedig. Flwyddyn yn ddiweddarach bu farw ei thad, ein Taid, o dor-calon dros y mab-yng-nghyfraith a oedd wedi dod yn ffrind gorau iddo.

Aeth Mam ati i ymroi gyda mwy fyth o egni gyda'i haddysgu a'i gwaith ieuencid a daeth Nain i fyw atom ni. Mae'n rhaid bod yr ychydig flynyddoedd nesaf wedi bod yn heriol iawn iddi, ond ni wnaeth Jane a minnau synhwyro unrhyw wanhau yn ei phenderfyniad i ddal ati a chadw Jane a fi ar y trywydd iawn wrth inni dyfu i fyw.

Yn gynnar yn yr 80au, yn dilyn anogaeth ei mam, penodwyd hi yn ddirprwy bennaeth yn Ysgol Tywyn; swydd a rannodd gyda dirprwy arall, a oedd hefyd wedi dioddef colled drasig ei wraig, Megan. Yn dal yn eu 40au, daeth Elfyn ac Ann o hyd i'w gilydd, ac ym 1987 fe briodon nhw - roedd Elfyn wrth gwrs wedi cydnabod ei fod yn ymgymryd â 'phecyn' Nain yn y fargen. Symudon nhw i Gwyddelfynydd ym Mryncrug, a phedair blynedd

yn ddiweddarach gwnaethant eu cartref yn Nhywyn yn y Faenol. Dyrchafwyd Elfyn, Mr James, yn brifathro Ysgol Tywyn ac arhosodd Mrs James fel dirprwy bennaeth - a gallwch ddychmygu eu bod yn dîm aruthrol.

Roedd yn fywyd prysur, gwerth chweil, hwyliog a phleserus. Daeth yn fwy felly ar ôl ymddeol - yn 58 oed. Dwy flynedd yn ddiweddarach, ymddeolodd Elfyn ac felly cychwynnodd pennod newydd, brysur yn eu bywydau - ymunodd Mam â'r Olwyn Fewnol gan godi arian at lawer o achosion da ac yn y pen draw, daeth yn Gadeirydd Gogledd Cymru. Trwy ei rhan yn yr Olwyn Fewnol ac aelodaeth Elfyn o'r Clwb Rotari fe gwrrddon nhw â llawer o bobl a gwneud llawer o ffrindiau. Wrth gwrs, ni ddylwn anghofio bod eu hymddeoliad hefyd wedi ei fendithio â brenin bywiog ac egniol sbaniel y brenin Charles, Charlie, a'u cadwodd yn heini ac yn egniol.

Pan edrychaf yn ôl nawr ar 82 mlynedd o'i bywyd, rwy'n falch o ddweud gyda phob didwylledd iddi gael bywyd gwych, un a wnaeth wahaniaeth cadarnhaol i lawer o bobl, yn anad dim i bobl ifanc yn eu blynedd ffurfiannol.

Hyd at yr 20 mis diwethaf, mwynhaodd fywyd iach, heblaw am ddwy lawdriniaeth lwyddiannus y gwnaeth wella'n llwyr ohonyn nhw. Roedd gan Anne ac Elfyn bartneriaeth hir, gariadus a chyfeillgarwch gwych ac ymroddgar. Roeddent yn gwmni gwych ac yn ategu ei gilydd yn berffaith - roedd hi'n ornest berffaith. Byddwn i gyd yn gweld ei heisiau.


**James Muir**

**YN EISIAU  
IS-OLYGYDDION  
P'R PAPUR HWN**

**Llais  
Ardudwy**

Rydan ni'n dal i chwilio.  
Tybed gawn ni waed  
newydd cyn dathlu'r 500?

## Pwff Pwff - ar gael yn Abergele



Bûm yn sôn am John Ambrose Lloyd (1815-1874) cerddor a chymwynaswr mawr, yn wreiddiol o'r Wyddgrug, a gyfansoddodd lawer o'n tonau cynulleidfaol gorau.

Wedi iddo gael ei siomi braidd wrth geisio swyddi ac ar ôl cael hwyl symbol iawn ar sefydlu busnes, cafodd le fel goruchwyliwr yng nghwmni Woodall & Jones, masnachwyr te yn Lerpwl i fod yn gyfrifol am eu busnes yng ngogledd Cymru. Rhoes hyn y rhyddid iddo a'r gallu ariannol i gyfansoddi, cystadlu a beirniadu mewn eisteddfodau ac arwain cymanfaoedd canu a gwyliau cerddorol hyd a lled y wlad. Yn y flwyddyn 1850 y bu

hyn. Fe welir yn amlwg, o'r flwyddyn hon ymlaen, fod ei gyfansoddiadau yn mynd yn fwy ac yn fwy niferus a'u hansawdd hefyd yn gwella. Symudodd yn ôl i Gymru yn 1851, i'r Bwlch Bach ger Conwy. Ni fu yno'n hir, fodd bynnag, oherwydd symudodd y teulu i Gaer yn 1852; lle buont nes mudo i Rhyl yn 1864.

Cyhoeddwyd tôn ar ôl tôn o'i waith yn ystod y cyfnod hwn. Mae yna bymtheg ohonynt i gyd yn y Caneuon Ffydd. Diddorol ydi sylwi ei fod wedi enwi'r rhan fwyaf o lawer ohonynt ar ôl lleoedd, yn enwedig lleoedd yn Sir y Fflint - ei hen gynefin. Yn y sir honno mae tref 'yr Wyddgrug' gydag afon 'Alun' yn llifo gerllaw iddi. Yno hefyd cawn 'Whitford' a 'Downing' o enwi dwy o'i donau enwocaf.

Mae digon o esiamplau eraill oddi allan i'r Caneuon Ffydd, tonau fel 'Gronant', 'Mostyn' a 'Rhyl'.

Enwai donau ar ôl lleoedd eraill y byddai yn mynd iddynt. Mae yna un traddodiad ei fod wedi cyfansoddi'r dôn 'Abergele' ar blatfform yr orsaf yno. Tôn 559 yn y Caneuon Ffydd ydi hon.

Y stori yw ei fod yn sefyll yn

yr orsaf a bod yr injan stêm yn cael trafferth cychwyn. Mae'n debyg mai ychydig o ddarllenwyr Llais Ardudwy sy'n ddigon hen i gofio fel y gallai injan stêm yn tynnu llwyth go drwm fethu weithiau wrth gychwyn o'i hunfan hefo'r olwynion yn troi yn rhydd cyn cael gafael iawn ar y rheiliau wedi tro neu ddau. Os edrychwch ar y dôn, neu wrando arni, fe welwch fod ei chychwyniad braidd yn glonciog fel injan drên felly hefo saib neu ddaliad ar ôl y pedwerydd nodyn ac wedyn ar ôl y chweched. Wel dyna'r stori beth bynnag, ac yn wir pwy a wŷr na all fod yn wir gan fod cerddorion da fel John Ambrose Lloyd yn gallu clywed cerddoriaeth ymhob peth.

Anaml iawn y rhoddai enwau pobl ar ei donau. Yr unig un a welais oedd 'Mary' a enwodd ar ôl ei ferch. Yn anffodus, collwyd Mary fach yn ifanc iawn a mawr fu ei alar o'r herwydd.

Arweiniai gymanfaoedd a chorau ledled Cymru a thros y ffin â Lloegr hefyd. Ei farn bendant oedd mai yn Aberystwyth y byddai'r canu gorau bob amser.

Ymddeolodd yn 1872 pan ddechreuodd ei ieuchyd

ddirywio a bu farw yn 1874. Gadawodd drysorfa o gerddoriaeth ar ei ôl a'r cyfan bron yn weithiau cysegredig. Mae'r hanesydd cerddorol, R D Griffith wedi datgan ei farn mai ei gymwynas fawr oedd 'rhoddi i'w genedl donau teilwng yn gyfryngau mawl, ar ôl iddynt fod yn canu tonau gwael a ddygwyd o Loegr'. Gall yr Wyddgrug ymfalchïo ei bod wedi magu Daniel Owen; gall hefyd fod yn hynod falch o John Ambrose Lloyd.

JBW

## BABI NEWYDD



Llongyfarchiadau i Penri Williams a'i wraig Nest ar enedigaeth eu mab cyntaf, Edryd Dafydd. Bu Penri yn gweithio fel cyfreithiwr yn y Bermo am gyfnod ac roedd yn wŷr poblogaidd iawn ymhlith ei gleientiaid. Llongyfarchiadau hefyd i Bryn Williams [JBW, ein colofnydd rheolaidd] a'i wraig Gwenan ar ddod yn daid a nain unwaith eto.

**Tel : 07717 128003**

Richard Pearson



**Pob agwedd o waith  
coed, coedwigaeth a  
rheolaeth cefn gwlad**

• **Coed Tân meddal a chaled  
ar gael trwy'r flwyddyn**  
• **Cynnyrch pren**



• **Proffesiynol** • **Safon BS 3998**  
• **Dibynadwy** • **Cymwysedig**  
• **Preifat** • **Masnachol**  
• **Yswirio'n llawn**



**Gwasanaethau Coed  
Pearson & Co Ltd.**

**www.PearsonTrees.co.uk**

## Llais Ardudwy

Os ydych wedi derbyn y rhifyn yma drwy ebost yna cofiwch ei rannu gyda'ch ffrindiau os gwelwch yn dda. Gallech chi hefyd ei anfon ymlaen at unrhyw un sy'n dysgu siarad Cymraeg. Anfonwch gopi i unrhyw le yn y byd os mynnwch chi!

## Rhifyn mis Mai

Fel y gwyddoch, rydym wedi addo cynhyrchu papur eto ym mis Mai. Ond beth gawn ni i lenwi hwnnw ar adeg fel hyn? Dyna gwestiwn gawson ni yn ddiweddar. Cwestiwn digon teg, yn enwedig wrth ystyried yr holl hunan-ynysu a'r ffaith nad ydym yn dod at ein gilydd i gymdeithasu y dyddiau hyn. Teimlwn fod digon o bobl yn yr ardal all anfon hen luniau, sgwennu erthyglau nodweddiadol, pytiau difyr, teithiau cerdded, posau, ysgrifau, atgofion ayyb fel ein bod yn gallu cynhyrchu papur difyr i'n darllenwyr. Drosodd atoch chi rŵan!

# POBOL Y PRIFFYRDD - Edward M Thomas

## Hogia (a merched) yr 'Highways' - Rhan 3


Ar y dechrau, yn y swyddfa yn Nolgellau yr oeddwn, ond fel y datblygodd y swydd, deuthum i grwydro ledled y sir. Roedd tair prif ganolfan neu ddepo o gwmpas Meirionnydd yn ei chyfanrwydd. Cyfeirid at y rhain fel 'y depos'. *Meyrick Square* oedd y prif safle, ac yn gwasanaethu ardaloedd 5 a 6, dan ofal bryd hynny Ellis ac Wyn Evans, Dolgellau. Hon hefyd oedd y brif ganolfan ar gyfer trwsio a chynnal y fflyd, gydag Ernest Tudor (Ganllwyd) yn gofalu am oddeutu chwech o fecanics, gan gynnwys Ron Morris, Michael Williams, Rhagfyr Lewis, ac R Hughes neu 'Tabor' fel yr adweinid, ac i gyd o Ddolgellau. Yma hefyd yr oedd gweithdy'r saer, sef Basil Williams. Ceid y brif storfa ddillad, offer, deunydd ac ati, yma ac roedd yn safle prysur ac unigryw, wedi ei lleoli ynghanol y dref. Mae'r safle wedi ei thrawsnewid ers blynnyddoedd, a chartrefi sydd yno bellach.

*Highways Depot*, Peniel Terrace, Ffestiniog, oedd y safle ar gyfer ardaloedd 1 a 2, er fod depo bychan yn y Bermo. Dros y blynnyddoedd yma yn wir y dysgais 'brofiadau bywyd'. Gydag Albert Groom ar yr arfordir, ardal 1, Ifor Pugh (Llanbedr), Gellilydan, oedd yn gofalu am yr ardal hon, ardal rhif 2, o Minffordd i fyni i Blaenau, ac yn cynnwys y Crimea ar Migneint. Roedd Ifor yn drefnydd ardderchog, ac yn beiriannydd da. Aml i dro, byddai ei ffigyrau a'i ddamcaniaethau yn goroesi unrhyw fanylion a ddarperid gan wŷr y 'drawing office'! Yma hefyd yr oedd R J Roberts (Jim Penyffridd) yn gweithio, yn mesur a chadw cofnodion yr holl weithfeydd fyddai ar droed bryd hynny, gwaith cynnal a chynlluniau gwella ffyrdd. Roedd oddeutu rhyw 50-60 yn gweithio o'r safle hon, ynghyd â chanolfan cynnal fflyd fechan yn yr iard gefn.

Dyma rai o'r enwau rwyf yn eu cofio: G H Roberts (Tanygrisiau), Dafydd James



Ifor Pugh a Dafydd Wyn Jones



Ieuan G Thomas a Dafydd J Williams



Emyr Wyn Roberts, Gwyn Pugh, Ifor Pugh, Albert Groom a John Meirion Jones [Ymddiheurwn am ansawdd y llun.]

(Uwchlwrcoed) Gellilydan, Emllyn Parry (Teiliau Bach) Cwm Cynfal, Mark Atherton, Trawsfynydd, Tudor Roberts (Blaenau Ffestiniog). Yn ddiweddarach, sefydlwyd canolfan fechan golau stryd yn yr iard, a dau enw sy'n dod i'r cof ydi John Harris a Moi Jones (Cefnbychan) Blaenau Ffestiniog. Roedd yr adran hon dan ofalaeth Richard Edwards (Rich), Llanuwchllyn, gyda Gareth Davies (Sarnau) a John Lewis (Rhydymain) yn gweithio o Ddolgellau.

Depo Ffestiniog oedd y ganolfan imi, nid oherwydd natur fy ngwaith, ac un o'r ardaloedd hynny lle y cefais y pleser mwyaf o weithio ynddi, ond hefyd cyfeillgarwch un o'r gwŷr hynny, a wnaeth argraff ddofn arnof, er gwell neu waeth (gwaeth meddai llawer!) ac sydd, ymysg amryw

eraill o'm cydweithwyr bryd hynny, yn parhau i fod yn ffrind triw. Huw Evans, 'Huw Garreglwyd' neu 'Huw Bach' oedd y 'Storeman' yn Ffestiniog. Yn gymeriad a hanner, tynnwr coes, yn ffraeth ac eto yn medru cadw trefn a 'hwylio' ystorfa a chanolfan brysur iawn yn ei dyddiau. Mae ganddo mwy na llond sach o hanesion, a gobeithiaf yn wir y bydd yn fodlon eu hadrodd a'u cynnwys, mewn erthygl fyddai'n sicr yn ffeithiol, yn hwyliog a hefyd o bryd i'w gilydd yn lleddf. Mae angen profiad a dawn newyddiadurol i'w casglu a'u hailadrodd. Her i 'Llafar Bro' yn sicr!

Y brif ganolfan ardal arall oedd yn y Bala, sef yr Hafan, a hon dan oruchwyliaeth John Dewi Jones, ac yn gwasanaethu Penllyn, Cwm Prysor, Cwmtirmynach, Y Bala,



D J Williams



Dafydd I Jones



Ellis M Roberts



Gareth Davies

Glanrafon a Llandderfel. Hon hefyd oedd 'cartref' Idris Parry, a bellach yn fan gychwynnol i John Morris Edwards a D J Williams (Dei John), ardaloedd 3 a 4. Roedd Idris wedi bod yn gofalu am yr hen 'eastern division' a oedd bryd hynny yn ymestyn at Craig Lelo a Bryn Saith Marchog, a Llidiart y Parc, Corwen, Cynwyd a Llandrillo yn nyddiau Cyngor Sir Meirionnydd. Yma oedd ei galon, ond bellach rhaid oedd iddo gynnwys Dolgellau, Tywyn a Dinas Mawddwy yn ei ddalgylch. Yn enedigol o Drawsfynydd, roedd wedi ymgartrefu a chodi teulu yn y Bala. Yn fach o gorffolaeth, roedd yn hynod wydn, *cheroot* neu *cigar* fechan tebyg i 'Tom Thumb' wastad yn ei geg. Os mai cerddoriaeth a chanu oedd diddordebau Gwilym Jones yn y 'northern', chwarae snwcer, hela, golff, ac yn wir pob math o chwaraeon oedd prif ddiddordebau Idris.

Cofiaf amdano ef ag Euros yn trawo peli golff i lawr y rhodfa yn Nolgellau ar amser cinio, yn pytio yn y swyddfa, neu ddianc i'r clwb golff wedi cinio cynnar, am 'few holes'. Chwith meddwl amdanynt. Y ddau wedi ein gadael yn llawer rhy gynnar. Wel, fel dwed yr ymadrodd Seisnig, *the stage is set*. Os bydd diddordeb, ac y caf iechyd, gallaf symud ymlaen a chynnwys y gweithlu mewn erthygl arall. Y perygl ydyw y bydd yn darllen fel hunangofiant, fel y dywedodd Gareth y dydd o'r blaen. Yn sicr nid dyma'r bwriad, ac ymddiheuriadau ymlaen llaw am hynny.

### EMT

Diolch i Edward am ei gyfraniad gwiw. Mae ysgrifau fel hyn yn brin iawn ac mi fydd haneswyr y dyfodol yn eu trysori. [Gol.]

Atgoffir pawb fod yr holl barciau chwarae yn yr ardal wedi eu cau am y tro oherwydd feirws y goron.

# FEIRWS Y GORON

## Cyngor swyddogol

Gorchuddiwch eich ceg wrth dagu a thisian, defnyddiwch hances neu eich penelin.



Taflwch yr hances i'r bin wedi ichi ei defnyddio.

Wedi ichi dagu neu disian, golchwch eich dwylo gyda diheintydd yn cynnwys alcohol neu ddŵr a sebon. Gwnewch hyn hefyd wrth ofalu am bobl sy'n sâl.



Sefydliad  
Iechyd y Byd

# TOYOTA HARLECH



## COROLLA HYBRID NEWYDD

Dewch i roi cynnig ar yrru'r Corolla newydd!  
Mae 'na ganmol mawr i hwn!

Ffordd Newydd Harlech  
LL46 2PS

01766 780432

[www.harlech.toyota.co.uk](http://www.harlech.toyota.co.uk)  
[info@harlech.toyota.co.uk](mailto:info@harlech.toyota.co.uk)

[facebook.com/harlech.toyota](https://facebook.com/harlech.toyota)

[Twitter@harlech\\_toyota](https://twitter.com/harlech_toyota)



Yn 2012 dyfarnodd Prifysgol Cymru radd Doethuriaeth mewn Llên i Alan Llwyd am ei gyfraniad i lenyddiaeth Gymraeg. Yn ystod y blynyddoedd diweddar cyhoeddodd gofiannau mawr i Hedd Wyn, Kate Roberts, Waldo Williams, R Williams Parry, Gwenallt a T Gwynn Jones. Dyma gyfraniad anrhydeddus iawn i'n llenyddiaeth. Fe'i penodwyd yn Athro yn Academi Hywel Teifi, Coleg y Celfyddydau a Dyniaethau, Prifysgol Abertawe yn 2013.

Rhoddodd ei ganiatâd i gyhoeddi'r gerdd ysgytwol ac amserol hon i Llais Ardudwy ar amrantiad. Dymunwn ddiolch yn gynnes iddo am y gymwynas a hyderwn y byddwch yn darllen ac ailddarllen y gerdd yn y dyddiau dyrys sydd ohoni.

# Y DDAEAR

Ni wrandawai ei phlant ar ei phle, ei chri am drugaredd: fe'i niweidiem â mwg ein trafndiaeth, ei halogi'n ddi-hid. Gwenwynem ac amharchem hi, nes ennyn cynddaredd y ddaear a oedd ar drugaredd ein llygredd a'n lliid.

Fe wnaethom yr un math o niwed i'r blaned o'r blaen: tyllu i'w pherfeddion, hithau'n gaeth i fandaliaeth Dyn; chwilfriwio ei choed a'i chaeau, cerfio enwau ar faen, a gollyngodd ei haint i'w gwella o'i hingoedd ei hun. \*

Trwy atal ein trefn a'n trafndiaeth, trwy geryddu'n gwareiddiad y mae heddiw eto yn chwilio am beth iachâd, gan ddial ar bob un o'i phlant, cosbi pob mamleiddiad, am ei threisio a'i chreithio a'i hanrheithio, am ein holl sarhad.

Nid y ddaear sydd ar ein trugaredd, ond, yn hytrach, ni, ddifawyr y ddaear, sydd ar ei thrugaredd hi.

ALAN LLWYD

\* pandemig 1918, a laddodd hyd at 50 miliwn o bobl.

**FEIRWS Y GORON \* Aros gartref \* Hunan-ynysu \* Achub bywydau**